Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

## CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Cyhoeddwyd gyda chymorth:

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261

# Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

*Cyhoeddwyd gyda chymorth y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg*

# Bwrdd Golygyddol

Golygydd: Yr Athro Ioan M. Williams

Cynorthwyydd Golygyddol: Dr Gwenllian Lansdown Davies

Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd

Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:
Dr John S. Davies
Dr Noel A. Davies
Dr Siwan Davies, Prifysgol Abertawe
Dr Carwyn Jones, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd
Dr Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth
Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor
Dr Diarmait Mac Giolla Chríost, Prifysgol Caerdydd
Dr Delyth Morris, Prifysgol Bangor
Dr Andrew Parry, Prifysgol Glyndŵr
Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor
Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth
Dr Siân Wyn Siencyn, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor
Wyn Thomas, Prifysgol Bangor
Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe

e-Gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: Gwerddon, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.org

# Cynnwys


Crynodebau 5

Summaries 6

Erthygl 1: Dr Catrin Fflur Huws, "Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol" 7

Erthygl 2: Dr Sally Baker, Mr Hefin Gwilym, a Dr Brian J. Brown, "Trafodaeth feirniadol o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru" 28

Erthygl 3: Dr Anwen Jones, "Cymru, Cenedligrwydd a theatr genedlaethol: Dilyn y gwys neu dorri cwys newydd?" 45

Cyfranwyr 56

# Crynodebau

## Dr Catrin Fflur Huws, "Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol"

Gan ddefnyddio statws cyfredol yr iaith Gymraeg mewn addysg ôl-16 a gweinyddu cyfiawnder fel modelau, amcan yr erthygl hon yw esbonio cylchred o ddiffyg defnydd ieithyddol, sydd yn bodoli er gwaethaf darpariaeth ffurfiol ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau drwy gyfrwng iaith leiafrifol. Wedi hynny, eglurir ymhle y gellir canfod gwendidau o fewn y rhediad hwn. Yna cloriannir sut gellir defnyddio deddfwriaeth a pholisïau cyfredol mewn modd mwy effeithlon er mwyn newid ymddygiad ieithyddol.

## Dr Sally Baker, Mr Hefin Gwilym, a Dr Brian J. Brown, "Trafodaeth feirniadol o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru"

Mae'r erthygl hon yn adrodd am ganfyddiadau gwaith cychwynnol a wnaed i asesu cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru ac mae'n trafod yn feirniadol gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol. Mae swyddogaeth defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn y cyd-destun hwn yn parhau i fod yn amwys. Awgrymwn y caiff hyn ei adlewyrchu yn sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr, sy'n adrodd yn aml am werth eu cyfraniad at addysg gwaith cymdeithasol yn nhermau'r manteision personol – therapiwtig yn aml – iddynt hwy o gymryd rhan. Mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn frwdfrydig am gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at eu haddysg, ac yn credu ei fod yn werthfawr, ond roedd ganddynt syniadau amrywiol am sut a beth y gallai ac y dylai'r defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr ei gyfrannu.

## Dr Anwen Jones, "Cymru, Cenedligrwydd a theatr genedlaethol: Dilyn y gwys neu dorri cwys newydd?"

Mae'r erthygl hon yn astudiaeth o'r berthynas rhwng cenedligrwydd a theatr genedlaethol yng Nghymru o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y presennol. Ystyrir cenedligrwydd Cymreig yng nghyd-destun y drafodaeth gyfoes ar gysyniadau o'r genedl gan feirniaid blaengar Umut Özkirimli a Hans Kohn. Amcan yr erthygl yw archwilio'r cwestiynau hanfodol sy'n codi yn sgil y berthynas hanesyddol a chyfredol rhwng theatr genedlaethol, fel ymarfer celfyddydol, a mynegiant gwleidyddol o hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru. Asesir arwyddocâd theatr genedlaethol fel arf i fynegi hunaniaeth genedlaethol a gofynnir y cwestiwn, a ydyw theatrau cenedlaethol newydd yr unfed ganrif ar hugain yn cyfeirio yn ôl at gysyniadau traddodiadol o'r genedl a chenedligrwydd neu, a ydynt, yn hytrach yn gweithredu math newydd ar genedligrwydd cyfoes a ddiffinnir fel, 'an interaction of culutral coalescence and specific political intervention'?

# Summaries

## Dr Catrin Fflur Huws, "The Welsh language as a model for breaking the lack of use cycle in the context of minority languages"

Using the contemporary status of the Welsh language in post-16 education and the administration of justice as models, the aim of this article is to identify a paradigm of minority language non-use that arises despite the formal provision of bilingual services and resources. Thereafter, weaknesses in this paradigm will be explored in order to evaluate how existing legislation and policies may be employed in a manner that facilitates a change in linguistic behaviour from that which normalises minority language non-use to one that maximises the opportunities for meaningful linguistic choices.

## Dr Sally Baker, Mr Hefin Gwilym and Dr Brian J. Brown, "A critical discussion on the contribution of service users to social work education in Wales"

This article reports on the findings of initial work undertaken to assess the contribution of service users / carers to social work education at a higher education institution in Wales and also critically discusses the contribution of service users / carers to social work education. The role of service users / carers in this context continues to be unclear. We suggest that this is reflected in the comments of service users / carers, who often talk about the value of their contribution to social work education in terms of personal benefits - often therapeutic – which they experience from taking part. Social work students are enthusiastic about the contribution of service users / carers to their education, and believe it is useful, but they have varying ideas on how and what the contribution of service users / carers could and should be.

## Dr Anwen Jones, "Wales, nationality and national theatre: Following suit or breaking new ground?"

This article is a study of the relationship between nationality and national theatre in Wales from the nineteenth century up to the present day. Welsh nationality is considered in the context of contemporary discussion by the pioneering critics Umut Özkirimli and Hans Kohn on concepts of the nation. The article aims to look into the crucial questions which arise from the historical and current relationships between national theatre, as an arts exercise, and a political expression of national identity in Wales. The significance of national theatre as a tool for expressing national identity is assessed and it is questioned whether the new national theatres of the twenty first century refer back to traditional concepts of the nation and nationality or do they instead exercise a new kind of modern nationality which is defined as 'an interaction of cultural coalescence and specific political intervention'?

Dr Catrin Fflur Huws

# Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol

Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261
Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol


## Dr Catrin Fflur Huws


### Cyflwyniad

Cychwynnodd y broses o ysgrifennu'r erthygl hon ddeng mlynedd yn ôl, gyda doethuriaeth[1] ar ddefnydd y Gymraeg yn y llysoedd yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.[2] Yn ystod y cyfnod hwnnw, sylwyd fod tueddiad, mewn sawl cyd-destun ieithyddol, i ddadlau nad yw'r ddeddfwriaeth yn ddigon uchelgeisiol ac nad ydyw, mewn gwirionedd, yn gorfodi sefydliadau i newid eu hymddygiad.[3] Golyga hyn nad oes modd gwyrdroi'r patrwm lle gwelir cwymp yn y nifer o siaradwyr a chyfyngiad yn y gofodau lle siaredir yr iaith leiafrifol[4] yn ddyddiol gan drwch y boblogaeth. Yn aml, fodd bynnag, nid oes gan y ddeddfwrfa unrhyw fwriad i gyflawni'r amcanion hyn, yn enwedig yn wyneb grym economaidd[5] yr iaith fwyafrifol a diglosia hirsefydlog.[6]

Fodd bynnag, y ddadl a gyflwynir yn yr erthygl hon yw mai naïf ydyw, ar sawl ystyr, dychmygu y gall deddfwriaeth ynddi'i hunan adfer iaith ar y sail nad oes unrhyw ysgogiad i'r mwyafrif o fewn deddfwrfa genedlaethol i orfodi darpariaeth i leiafrif ar ddyletswyddau'r mwyafrif.[7] Yn gryno felly, ni bydd unrhyw ddeddfwriaeth ieithyddol yn ceisio disodli sefyllfa'r iaith fwyaf grymus drwy ganiatáu statws cydradd, yn ymarferol, â iaith leiafrifol. Dadleuir felly mai cychwyn y broses ydyw deddfwriaeth, ac nid diwedd y gân. Wedi deddfu, nid yw'r ddeddfwrfa'n debygol o gymryd cyfrifoldeb pellach dros iaith leiafrifol am o leiaf genhedlaeth, os o gwbl.[8] Amcan yr erthygl, felly, yw ystyried sut

---

1 Huws, C.F., *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts in the Twenty-First Century* (Traethawd doethuriaeth, Aberystwyth, 2005).

2 (1993 c.38).

3 Gweler Walsh, J. a McLeod, W.. 'An Overcoat Wrapped Round an Invisible Man? Language Legislation and Language Revitalization in Ireland and Scotland' (2008), 7 *Language Policy*,21–36.

4 Cydnabyddir fod gwahanol safbwyntiau yn bodoli ynghylch sut i ddisgrifio iaith sydd â statws ymarferol is na iaith arall. Fe all yr iaith fod yn iaith a siaredir gan leiafrif, ond fe all hefyd fod yn iaith a siaredir gan leiafrif o fewn un diriogaeth a mwyafrif o fewn tiriogaeth arall. Fe all gwmpasu sefyllfaoedd lle nad yw iaith yn iaith swyddogol er y'i siaredir gan drwch y boblogaeth. Fodd bynnag, defnyddir y term lleiafrifol yn yr erthygl hon i gwmpasu'r gwahanol sefyllfaoedd lle mae un iaith yn is ei statws na iaith arall.

5 Phillipson, R., *English Only Europe: Challenging Language Policy* (Routledge: Llundain, 2003), 145.

6 Heller, M., 'The Politics of Codeswitching and Language Choice'. Yn Eastman, C. M. (gol.), *Codeswitching*, (Multilingual Matters, Clevedon, 1992), 123–42, 123.

7 May, S., 'Misconceiving Minority Language Rights: Implications for Liberal Political Theory'. Yn Kymlicka, W. a Patten, A., *Language Rights and Political Theory* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2003), 123–53, t.126.

8 Yn y cyd-destun Cymreig, er enghraifft, ceir cyfnod o 25 mlynedd rhwng Deddf Llysoedd Cymru 1942 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1967, 26 o flynyddoedd rhwng Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a 18 mlynedd rhwng Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Mesur Iaith.

i edrych ar ddeddfwriaeth ieithyddol o ogwydd gwahanol, gan ystyried yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn ei pharamedrau, ac i ystyried i ba raddau y mae modd i siaradwyr yr iaith leiafrifol gymryd cyfrifoldeb am weithredu'r ddeddf mewn modd sydd yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Fe'i cychwynnir drwy drafod y patrwm presennol o ymateb i ddeddfwriaeth ieithyddol, yna fe ystyrir sut i newid y patrwm hwnnw, er mwyn newid ymddygiad ieithyddol. Oherwydd profiad yr ymchwilydd, a chylch gorchwyl y cylchgrawn a'i ddarllenyddiaeth, yr enghraifft a ddefnyddir yn bennaf yw enghraifft yr iaith Gymraeg yn y system gyfreithiol a'r system addysg ôl-16. Serch hynny, mae'r ddadl a gyflwynir yma yr un mor berthnasol mewn cyd-destunau ieithyddol eraill, ac felly er mai enghreifftiau Cymreig a gyflwynir yma, nid anodd fyddai trawsblannu'r argymhellion i awdurdodaethau a sefyllfaoedd eraill.

## Sail

Yn aml, tuedd rhethreg ymgyrchoedd dros iaith leiafrifol yw canolbwyntio ar ffactorau allanol sydd yn 'bygwth' iaith 'mewn perygl'. Eglura Cameron, er enghraifft:

> It is evident that the 'crisis' of language endangerment is generally presented in emotive and moralistic terms. While I would not go so far as to describe the result as a moral panic...it does arguably share some features with moral panic, such as the presupposition of a dire and rapidly deteriorating situation...the repeated expression of alarm about the scale of the problem and the use of emotionally loaded terms to describe it, e.g. death, endangerment, extinction, threat.[9]

Nid amcan yr erthygl hon yw gwadu fod hanes o anghyfartaledd wedi bodoli mewn sawl cyd-destun ieithyddol, ac adwaenir y cefndir hanesyddol, lle breiniwyd yr iaith fwyafrifol, fel ffactor sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at sefyllfa gyfredol cymunedau a rhwydweithiau ieithyddol lleiafrifol.[10] Fodd bynnag, mewn sawl awdurdodaeth, gwelwyd fod newid wedi bod yn y feddylfryd, a bod nifer o ieithoedd lleiafrifol eisoes wedi derbyn statws swyddogol neu statws gydradd, neu ynteu ddarpariaethau sydd yn hybu defnydd yr iaith mewn sefyllfaoedd penodol, a hynny ar lefel ryngwladol yn ogystal ag ar lefel ddomestig.

Serch hynny, parheir i ystyried fod ieithoedd lleiafrifol mewn sefyllfa fregus, a chyfeirir at gysondeb neu gwymp yn nifer yr oedolion sydd yn gallu siarad yr iaith, yn ogystal â chwymp yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd.[11] Yn aml yr ymateb cyffredin i hyn yw tybied nad yw'r polisïau swyddogol yn ddigon uchelgeisiol, neu ddadlau eu bod yn cynrychioli cyfaddawdu gormodol er mwyn peidio dieithrio gwrthwynebwyr.[12]Dadl arall a gyflwynir yw nad yw deddfwriaeth ieithyddol yn ddigon cryf i wrthsefyll grym

[9] Cameron, D., 'Language endangerment and verbal hygiene: history, morality and politics'. Yn Duchêne, A. a Heller, M., *Discourses of Endangerment* (Continuum, Llundain, 2008), 268–85, 269.

[10] Er enghraifft, ceir amlinelliad o'r cyd-destun Sbaeneg yng ngwaith Turell. Gweler Turell, M.T., 'Spain's Multilingual Make-up: Beyond, Within and Across Babel'. Yn Turell, M.T., *Multilngualism in Spain* (Multilingual Matters, Clevedon, 2001), 1–57, 2.

[11] Ambrose, J. a Williams, C.H., *Scale as an Influence on the Geolinguistic Analysis of a Minority Language* (Adran Ddaearyddiaeth a Daeareg, North Staffordshire Polytechnic, 1981).

[12] Turell, M.T., 'Spain's Multilingual Make-up', *op.cit.*,1–57, 1-2.

economaidd (yr iaith fwyafrifol fel iaith sydd yn fanteisiol i'w harddel o safbwynt cyfleoedd gyrfaol a llwyddiant) a hanesyddol (yr iaith fwyafrifol fel yr iaith a orfodwyd, ar draul yr iaith leiafrifol, a eithriwyd o ofodau ffurfiol) yr iaith fwyafrifol, yn enwedig pan mai'r Saesneg yw'r iaith fwyafrifol dan sylw.[13] Yr hyn sy'n gyffredin yn y dadleuon hyn yw'r tueddiad i ystyried tranc iaith leiafrifol fel rhywbeth y gellir ei feio ar ffactorau allanol.[14]

Yr hyn a anwybyddir, fodd bynnag, yw fod nifer o'r deddfau presennol eisoes yn cynnwys sgôp helaeth ar gyfer adfywio'r iaith leiafrifol mewn modd llawer mwy ystyrlon nag a welir ar hyn o bryd. Hyd yn oed mewn deddfau nad ydynt ond yn cynnig amddiffyniad elfennol i iaith leiafrifol ceir datganiadau eang a chynhwysfawr o statws yr iaith leiafrifol. Os edrychwn, er enghraifft, ar Ddeddf yr Iaith Aeleg 2005[15], gwelwn fod geiriad y ddeddf yn gallu cwmpasu ystod eang o weithgareddau. Mynega'r teitl hir, er enghraifft, mai amcan y ddeddf yw "securing the status of the Gaelic language as an official language of Scotland commanding equal respect to the English language" ac fe allai'r Cynllun Iaith Cenedlaethol y cyfeirir ato yn adran 2 yr un ddeddf gynnwys ystod eang o strategaethau er mwyn hybu defnydd a dealltwriaeth yr Iaith Aeleg, ynghyd â hybu addysg a diwylliant Gaelaidd. Gan hynny, y mae potensial sylweddol eisoes o fewn deddfau iaith cyfredol i adfywio iaith leiafrifol drwy newid ymddygiad ieithyddol, ac felly pe gellid defnyddio'r adnoddau presennol mewn modd mwy strategol, yna gellid sicrhau fod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith heb ychwanegu baich ariannol anghymesur. Drwy ystyried parhad iaith leiafrifol fel cyfrifoldeb ei siaradwyr, yn hytrach na disgwyliadau i'w gosod ar y sawl nad ydynt yn arddel yr iaith, yna gellir adnabod ffyrdd o ddefnyddio'r fframweithiau cyfreithiol cyfredol mewn modd sydd yn hybu defnydd yr iaith leiafrifol, yn hytrach na'i rhwystro. Â'r erthygl hon yn ei blaen felly i egluro sut mae gweithrediad y polisïau iaith cyfredol yn gallu parhau cylchred o ddiffyg defnydd ieithyddol, a sut y gellir defnyddio'n strategol y fframweithiau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli er mwyn torri'r gylchred honno.

## Y Cylch diffyg defnydd

Yr hypothesis a gyflwynir yma yw bod cylchred o ddiffyg defnydd ieithyddol ar waith yn y modd yr ymatebir i bolisïau ieithyddol. Gan hynny, amcan yr adran hon yw egluro'r gylchred honno. Un o'r ffactorau sydd yn peri i iaith ddod yn iaith leiafrifol yw edwiniad yn nifer ei siaradwyr. Fe arwain hyn at edwiniad ym maint yr ardaloedd hynny lle ceir nifer ddigonol o siaradwyr yr iaith leiafrifol i sicrhau ei defnydd fel yr iaith arferol o ddydd i ddydd, a hynny yn ei dro yn arwain at edwiniad pellach yn nifer y siaradwyr, oherwydd i'r 'arfer' o ddefnyddio'r iaith gael ei golli. Arwain hyn at yr hyn mae Fishman ac eraill wedi ei ddisgrifio fel amnewid ieithyddol, neu 'language shift',[16] sef sefyllfa lle nad yw siaradwyr iaith leiafrifol yn arddel yr iaith honno, gan droi yn hytrach at ddefnyddio'r iaith fwyafrifol. Gall hyn fod o ddewis, neu ynteu oherwydd fod cyfyngiad ar eu gallu i wneud y dewis hwnnw, megis lle nad yw'r gwrandäwr yn deall yr iaith. Fodd bynnag, yr un yw'r effeithiau, sef llai o ofodau ar

---

13 Fishman, J.A., *Can Threatened Languages Be Saved?* (Multilingual Matters, Clevedon, 2001), 6.

14 *Ibid.*

15 (2005 asp7).

16 Fishman, *Can Threatened Languages be Saved?, op.cit.,* 1.

gyfer defnyddio'r iaith mewn modd anarwyddocaol (unmarked),[17] dirywiad mewn rhuglder yn yr iaith leiafrifol, ac felly llai o gymhelliant ar gyfer ei pharhad.[18]

Ymateb cyffredin i'r patrwm hwn yw datblygu polisïau er mwyn adfer yr iaith, naill ai drwy gynllunio statws neu drwy gynllunio corpws, neu gyfuniad o'r ddau.[19] Felly, mewn sawl cyd-destun ieithyddol, gwelwyd datblygiad mewn darpariaeth addysgol a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ystod yr ugeinfed ganrif.[20] Eglurir y rhesymeg y tu ôl i ddatblygiadau o'r fath ar y sail bod y sefyllfaoedd hyn yn sefyllfaoedd statws uchel, tybir, felly, fod yr hawl i ddefnyddio iaith leiafrifol yn y sefyllfaoedd hyn yn arwain at barhad yr iaith a'i throsglwyddiad rhwng cenedlaethau.[21]

Fodd bynnag, oherwydd yr edwiniad yn nifer y siaradwyr, a'r edwiniad yn y gofodau anffurfiol, megis y cartref a sefyllfaoedd cymdeithasol, lle gellir defnyddio'r iaith, ceir hefyd amharodrwydd i ddefnyddio iaith leiafrifol mewn cyd-destunau ffurfiol:

> A common formulation of the reversing language shift task is to set as a goal the elevation of Th (the threatened language) from n-P (non-powerful) to P (powerful) functions... If Th is not successfully (intergenerationally) maintained at the n-P level (and mother tongue transition is an informal, spontaneous, intimate n-P function), it will then have no mother tongue speakers within one generation who can use it for n-P functions. In that case it can still discharge certain P functions, but they will have to be acquired anew generation after generation via exposure to a P institution that is under Th control. Such institutions, like all P institutions, are typically under great n-Th (non-threatened language) influence, pressure or regulation. Thus the loss of crucial intergenerational Th-related n-P functions and the difficulty of substituting them for a new institutionally based (rather than intergenerationally transmitted) Th-related P functions is another reason why it is so difficult to save a threatened language.[22]

---

17 Gwaith Myers-Scotton yw ffynhonnell categoreiddio codau ieithyddol fel codau arwyddocaol neu anarwyddocaol. Defnyddir iaith mewn modd anarwyddocaol pan y'i defnyddir yn y modd disgwyliedig. Felly, lle ceir norm cymdeithasol o ddefnyddio un cyfrwng ieithyddol, yna fe'i defnyddir yn naturiol. Lle mae dewis iaith yn arwyddocaol, fe'i defnyddir yn fwriadol er mwyn mynegi safbwynt. Fodd bynnag, ni bydd grŵp llai grymus (megis grŵp ieithyddol lleiafrifol) yn gwneud hynny mewn sefyllfaoedd o ddiffyg hyder, ac felly os oes newid ieithyddol sydd yn golygu mai'r iaith fwyafrifol yw'r norm cymdeithasol, yna ni chrëir gofod ar gyfer defnyddio'r iaith arall. Dyma paham fod creu gofodau ar gyfer defnyddio'r iaith leiafrifol mewn modd anarwyddocaol yn berthnasol yng nghyd-destun yr erthygl hon. Myers-Scotton, C., 'A Theoretical Introduction to the Markedness Model'.Yn Myers-Scotton, C., *Codes and Consequences: Choosing Linguistic Varieties* (Oxford University Press, Rhydychen, 1998), 18–38.

18 Gweler Fishman, *Can Threatened Languages Be Saved? op.cit.*, 11, am drafodaeth helaethach o'r broses hon.

19 Fishman, J.A., *Do Not Leave Your Language Alone* (Lawrence Erlbaum Associates, Mahwah, 2006), 2–3.

20 Gweler Williams, G., *Sustaining Language Diversity In Europe* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2005).

21 Fishman, *Can Threatened Languages be Saved? op.cit.*,10–11.

22 *Ibid*, 10.

Nid yn unig y mae'r broses o greu gofodau statws uchel i iaith leiafrifol wedi bod ar draul hybu'r iaith mewn gofodau anffurfiol, gall y pwyslais sefydliadol ar ddatblygu defnydd yr iaith mewn cyd-destunau ffurfiol hefyd weithredu mewn modd sydd yn rhwystro defnydd yr iaith mewn cyd-destunau anffurfiol. Yn gyntaf, gall amnewid ieithyddol mewn cyd-destunau anffurfiol weithredu fel adwaith i bolisïau ar gyfer hybu'r iaith mewn cyd-destun ffurfiol.[23] Gan hynny, bydd defnyddwyr yn defnyddio'r iaith fwyafrifol mewn gofodau anffurfiol er mwyn dieithrio'u hunain oddi wrth iaith y sefydliad, yn enwedig felly y sefydliad addysgol. Cyfeiria Preece, er enghraifft, at arddull iaith ymysg myfyrwyr fel modd o uniaethu neu ddieithrio'r unigolyn:

> 'Speaking posh' indicates a greater level of conformity to standard English and Received Pronunciation. It is also suggestive of the middle class positioning associated with university... slang invokes cool and youthful identity positions, embedded in cultural hybridity.[24]

Er y cyfeiria Preece at newid cywair ac arddull iaith o fewn un iaith, y mae ei sylwadau yr un mor ddilys ar gyfer unigolion dwyieithog, lle mae'r dewis o un iaith dros y llall yn amlygu hunaniaeth yr unigolyn yn yr un modd ag y gwna'r dewis o gywair ieithyddol gan unigolion uniaith.

Yn ail, gall y pwyslais ar gywirdeb ieithyddol, cyweiriau cymhleth a thermau technegol neu arbenigol[25] ddieithrio nifer o siaradwyr, gan eu rhwystro rhag defnyddio'r iaith mewn cyd-destunau ffurfiol. Cyfeiria Shohamy, er enghraifft, at y pwyslais a roddir ar ddefnyddio arddulliau cywir mewn cyd-destunau ffurfiol, gan ddadlau fod y gwahaniaethu hyn yn sicrhau fod nifer helaeth ymysg y boblogaeth yn dod i deimlo nad yw'r arddull iaith a ddefnyddiant yn ddigon da ar gyfer sefyllfaoedd ffurfiol. Effaith y dieithrio hyn yw fod llai o gymhelliant felly iddynt arddel yr iaith, a'i throsglwyddo.

Os na bydd defnyddwyr yn arddel iaith leiafrifol mewn cyd-destun ffurfiol, yna nid yw'r sawl sydd yn darparu gwasanaethau ffurfiol yn datblygu'r rhuglder angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaeth drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol. Arwain hyn at anfodlonrwydd i gynnig gwasanaeth dwyieithog,[26] a hynny yn ei dro yn dwysau'r diffyg galw ymysg defnyddwyr.[27] O ganlyniad, er bod yna sefyllfaoedd, megis darpariaeth addysg a gwasanaethau cyhoeddus lle gellir defnyddio iaith leiafrifol, mewn sawl cyd-destun ieithyddol parha lefelau'r defnydd i fod yn gymharol isel, ac ni lwydda'r darpariaethau i adfywio'r iaith leiafrifol mewn modd sylweddol.

---

23 Judge, A., *Language Policies and the Survival of Regional Languages in France and Britain* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2007), 169.

24 Preece, S., *Posh Talk: Language and Identity in Higher Education* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2009), 1.

25 Shohamy, E., *Language Policy: Hidden Agendas and New Approaches* (Routledge, Llundain, 2006), xv.

26 Herman, S.R., 'Explorations in the Social Psychology of Language Choice'.Yn Fishman, J,A, (gol.), *Readings in the Sociology of Language* (Mouton & Co, The Hague, 1968), 492–511, 501.

27 Jones, B.M., *Ar Lafar ac Ar Bapur* (Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Aberystwyth, 1993), 260.

## Y Cylch Diffyg Defnydd: Y Model Cymreig

Y mae sefyllfa gyfredol yr iaith Gymraeg yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn fodel nodweddiadol o gylch diffyg defnydd ieithyddol. Gwelwyd edwiniad yn nifer y siaradwyr yn ystod yr ugeinfed ganrif, a serch y cynnydd yn y niferoedd er 1991, dengys nifer o astudiaethau – megis mapiau trawiadol Aitchison a Carter[28] – sut mae lefelau defnydd y Gymraeg wedi edwino oherwydd gostyngiad yn nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg gan dros 60 y cant o'r boblogaeth,[29] gostyngiad yn nifer yr aelwydydd lle siaredir y Gymraeg fel prif iaith y cartref,[30] a gostyngiad yn lefelau trosglwyddiad rhyng-genedlaethol.[31]Ymhlith y camau hynny a gymerwyd mewn ymateb i'r edwiniad yn niferoedd y siaradwyr oedd creu gofodau ffurfiol lle gellid defnyddio'r Gymraeg, gyda datblygiad gwasanaethau cyhoeddus ac addysg yn flaenllaw yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, gellir gweld y cylch diffyg defnydd a ddisgrifiwyd uchod yn gweithredu o fewn y ddau ofod hyn

***a. Y Gymraeg yn y Gyfraith***

Ym maes gweinyddu cyfiawnder, y mae'r hawl i siarad Cymraeg mewn achos llys wedi esblygu'n raddol ers Deddf Llysoedd Cymru 1942.[32] Ymgorfforir yr hawl presennol yn Adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993[33] ac fe gefnogir yr hawl hon gan y Cynlluniau Iaith a luniwyd gan y cyrff hynny sydd yn ymdrin â gweinyddu cyfiawnder yn unol ag Adran 5 y ddeddf. Canfuwyd mewn gwaith blaenorol fodd bynnag, fod amryw o resymau pam bod lefelau defnydd y Gymraeg mewn achosion cyfreithiol yn gymharol isel.[34] Fodd bynnag, un ffactor sylweddol a adnabuwyd yw bod yr hawl a ganiateir yn Neddf yr Iaith Gymraeg yn fodel o'r ffurfioli ieithyddol[35] y cyfeiriwyd ato uchod. Y mae cyweiriau iaith cymhleth, a thermau cyfreithiol technegol yn anochel ym maes y gyfraith, ynghyd â statws hirhoedlog y Saesneg fel iaith y gyfraith a gweinyddu cyfiawnder.Felly, effaith Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw creu gofod ieithyddol sydd yn dieithrio siaradwyr, a gaiff eu cyflyru i deimlo nad yw'r arddull iaith a siaradant yn ddigon da nac yn ddigon cywir. O ganlyniad, felly, yn aml nid yw defnyddwyr y llysoedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cyfreithiol[36] yn enwedig gan y byddai hyn yn mynd yn erbyn 'arferiad' y sefydliad cyfreithiol sydd yn deillio o ddeddfwrfa uniaith Saesneg a system lysoedd llemae cyfreithwyr (yn gyffredinol) wedi derbyn eu holl hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg, a lle mae eu holl ddeunyddiau cyfeiriant wedi eu cyhoeddi yn yr iaith Saesneg.

---

28 Aitchison, J. a Carter, H., *Spreading the Word: the Welsh Language 2001* (Y Lolfa, Talybont, 2004).

29 Mac Giolla Chríost, D., 'Globalisation and Transformation: Language Planning in New Contexts'. Yn Nic Craith, M., *Language Power and Identity Politics* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2007), 21–43. 25,

30 Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Trosglwyddo'r Iaith o Fewn y Teulu. Dadansoddiad Ystadegol.' www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/550.doc (Cyrchwyd Awst 24ain, 2010).

31 Gweler Jones, K. a Morris, D., 'Welsh Language Socialisation within the Family' (2007), 20(1), *Contemporary Wales* 52–70, 52.

32 5 & 6 Geo 6 c.40.

33 1993 c.38.

34 Huws, *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts , op.cit.*.

35 Shohamy, *Language Policy, op.cit.*,9.

36 Huws, *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts, op.cit.*, 382.

Arwain hyn at gylchred o ddiffyg defnydd: oherwydd diffyg galw ni bydd darparwyr yn magu'r rhuglder ieithyddol angenrheidiol yn y Gymraeg. Er enghraifft, mynega staff y gwasanaethau cyfreithiol eu hansicrwydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg oherwydd nad yw ffurfiau cyffredin ar eiriad, megis amodau mechnïaeth, a ddefnyddir yn aml yn Saesneg, mor gyfarwydd yn y Gymraeg.[37] Fodd bynnag, drwy ddiffyg defnydd, ni bydd datblygiad yng ngallu'r darparwyr i ymdrin â'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol, a pharha i fod yn rhywbeth ymylol sydd ond ar gael pan fydd y defnyddiwr yn gofyn amdano.[38] Yn fwyfwy, yn sgil diffyg defnydd ar yr adnoddau a ddarperir, nid oes cymhelliant i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach,[39] ac felly oherwydd bod y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg yn fwy cyfarwydd, ac yn haws i'w ganfod, ni bydd cynnydd yn y galw am y ddarpariaeth. Gwelir felly sut y crëir cylchred o ddiffyg defnydd y Gymraeg o fewn gweinyddiaeth cyfiawnder nad yw Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi ei ddatrys.

***b. Y Cylch Diffyg Defnydd: Y cyd-destun addysgol ôl-16***

Ceir patrwm cyffelyb o fewn darpariaeth addysg bellach ac addysg uwch. Er bod y Gymraeg yn bwnc craidd hyd at 16,[40] cymharol ddiweddar yw'r ymgais i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch. Fodd bynnag, cydnabyddir fod y ddarpariaeth yn anghymesur o'i gymharu â'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg, fel y pwysleisir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010:

> Nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-14, na'r strwythurau sy'n ategu'r ddarpariaeth, eto wedi'u datblygu'n ddigonol. Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn y cyfnod 14–19... Fodd bynnag, mae'r rhaglen Llwybrau Dysgu 14–19 yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i ddatblygu'n sylweddol yr amrywiaeth o opsiynau... a'r isadeiledd i'w cynnal... Ym maes addysg uwch, er i ni weld rhai datblygiadau arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ceir llawer o amrywiadau yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir rhwng sefydliadau ac mewn pynciau gwahanol. Mewn rhai achosion, ceir cyfle i gyflawni pob rhan o gwrs, neu rannau helaeth ohono, drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn achosion eraill, efallai fod y cyfle yn gyfyngedig i ran o fodiwl, megis seminarau neu gymorth tiwtorial.[41]

Y mae'r ffaith fod y ddarpariaeth yn gymharol newydd mewn nifer o feysydd yn golygu nad oes yr un ystod o ddarpariaeth yn y Gymraeg ag a geir yn y Saesneg, yn enwedig

---

37 The Lord Chancellor's Sub-Committee on the Welsh Language: *A Report of the Criminal Justice Sub-Committee on the use of the Welsh Language in the Criminal Justice System in Wales* (2002).

38 Huws, *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts, op.cit.*,65–77 a 394–5.

39 Y Pwyllgor Cyllid: *Adroddiadar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg*, Awst 2010, Paragraff 20. http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld8186 (CyrchwydMedi 6ed, 2010).

40 The Education (National Curriculum) (Exceptions in Welsh at Key Stage 4) Regulations 1994 SI 1270.

41 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* Ebrill 2010, Paragraff 2.7. http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf (Cyrchwyd Awst 16eg, 2010).

mewn disgyblaethau lle nad oes traddodiad o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.[42] Caiff hyn effaith ar barodrwydd myfyrwyr i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd ar eu parodrwydd i gyflwyno gwaith asesiedig drwy gyfrwng y Gymraeg.[43]

Fodd bynnag, effaith diffyg defnydd ar y ddarpariaeth gyfredol yw nad ydyw'n ddeniadol, o safbwynt economaidd, i gynyddu'r ddarpariaeth,[44] mewn modd a fyddai'n annog defnydd ehangach. Fel yn y cyd-destun cyfreithiol, effaith diffyg defnydd gan fyfyrwyr yw diffyg rhuglder proffesiynol gan ddarparwyr,[45] gan nad ydynt yn meithrin yr eirfa a'r gystrawen dechnegol drwy ymarfer, nac ychwaith yn defnyddio'r Gymraeg mewn modd cynhyrchiol, drwy ehangu'r ystod o ddeunyddiau. Cyfeiria Young, er enghraifft, at y diffyg cyfleoedd sydd ar gael i ddarlithwyr gyhoeddi gwaith ymchwil a fyddai'n bodloni meini prawf yr Asesiadau Ymchwil – y meini prawf hynny sydd yn breinio dylanwad, ac felly'n diystyru gwaith a gyflawnir drwy gyfrwng iaith heblaw'r Saesneg.[46] Nid yw'r Gymraeg, felly, yn dod yn gyfrwng ar gyfer gwaith ymchwil, ac nid oes cyfle yn sgil hynny i ddarlithydd feithrin y sgìl o ymdrin â'i arbenigedd broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd nad yw'r darlithwyr yn cynhyrchu adnoddau yn y Gymraeg, nid oes adnoddau digonol yn bodoli a fyddai'n ysgogi myfyrwyr i gynhyrchu asesiadau yn y Gymraeg, ac felly ni fyddant hwythau ychwaith yn magu'r rhuglder i ymdrin â'u maes pwnc yn y Gymraeg.

Eto, cylch o ddiffyg defnydd yw'r canlyniad. Fodd bynnag, ceir sgil effeithiau mwy sylweddol i'r gylchred hon yn y cyd-destun addysgol, gan fod cylchred o ddiffyg defnydd iaith yn y gofod hwn yn cyfrannu at ddiffyg defnydd mewn cyd-destunau eraill. Os nad yw myfyrwyr yn datblygu'r sgiliau a'r rhuglder angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol, yna nid ydynt ychwaith yn magu'r rhuglder ieithyddol angenrheidiol idorri'r gylchred diffyg defnydd a welir mewn cyd-destunau eraill – gan gynnwys y cyd-destun cyfreithiol ycyfeirir ato uchod.

## Effeithiau'r Cylch Diffyg Defnydd

Yr hyn a ddengys y cylchoedd diffyg defnydd hyn yw, er y cynigir darpariaeth drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol a bod nifer o bobl yn manteisio ar y ddarpariaeth a gynigir, na

[42] Dengys yr ystadegau diweddaraf, er enghraifft, mai 26 y cant o'r myfyrwyr hynny sydd yn derbyn addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg sydd yn derbyn eu haddysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â 39 y cant sydd yn derbyn llai na chwarter eu haddysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae'r canrannau hyn yn sylweddol is ar gyfer pynciau lle nad oes traddodiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, megis meddygaeth, peirianneg, astudiaethau busnes, y gwyddorau a'r gyfraith. Gweler Ystadegau Gwladol: Y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch, 2007/08. SB 40/2009 (Mehefin 2009). http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090630sb402009cy.pdf (CyrchwydAwst 23ain, 2010).

[43] Williams, G., 'Legal Education in Welsh' (2005), 39(3), *The Law Teacher* 259, 260.

[44] Young, E.M., *Chwarter i Hanner Nos – A Oes Modd Datrys Picil Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg?* (UCAC, Aberystwyth, 2005), 13.

[45] Un o ganfyddiadau'r prosiect Mapping Legal Education in Wales (2003), er enghraifft, oedd mai dim ond hanner y staff academaidd ym mhrifysgolion Cymru a allai siarad Cymraeg a ymgymerai â gweithgareddau dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler Owen, R., 'Welsh Medium Education at Glamorgan', UK Centre for Legal Education, Curriculum Content and Development'. Cyhoeddwyd 2004. http://www.ukcle.ac.uk/resources/curriculum-content-and-development/owen/ (Cyrchwyd Awst 23ain, 2010).

[46] Young, *Chwarter i Hanner Nos, op.cit.*,13.

chrëir gofodau ychwanegol lle gellir rhagdybio y gellir defnyddio'r naill iaith neu'r llall yn ôl dewis personol, ac nid yw'r lefel o gyfranogaeth yn adlewyrchu niferoedd y siaradwyr o fewn y boblogaeth ehangach. Gan hynny, er bod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r ymgais i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn addysg bellach ac addysg uwch wedi bod yn gamau sylweddol ymlaen o safbwynt statws y Gymraeg, tueddant i ryw raddau i barhau'r status quo:

> While rules and regulations are considered powerful ways of creating policy as they are driven by powerful institutions, supported by legislation and are capable of imposing sanctions of different types,including financial ones, there is still no guarantee that they will actually be applied and implemented. In fact, it may very well be that declared policies, as stated in various official documents...only reflect intentions and 'nice words' and are not practised.[47]

Ymhellach, gellir defnyddio diffyg defnydd o iaith leiafrifol mewn gofod penodol fel dadl gref dros beidio ag ehangu'r ddarpariaeth mewn gofodau eraill. Crynhoir hyn gan Morris a Williams a ddywed:

> ... the consequences will be that Welsh-speakers will not avail themselves of this enabled opportunity. This in turn will lead the providers to claim that Welsh language use was never part of the needs and expectations of Welsh-speakers, and that it was all a waste of time and should be abandoned...[48]

Rhaid ystyried felly sut i weinyddu'r fframwaith bresennol mewn modd sydd yn newid y rhediadau a ddisgrifiwyd uchod er mwyn creu gofodau lle gall y defnyddiwr ragdybio y gall ddefnyddio ei ddewis iaith, heb orfod dyfalu a yw'r gwandawr yn mynd i ddeall y sgwrs os yw'n cychwyn drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol. Drwy ddangos fod y darpariaethau cyfredol wedi cyflwyno gwerth am arian ac ymdrech, yna gellir ennyn perswâd ar y ddeddfwrfa a'r weinyddiaeth i ddeddfu a llunio polisïau ieithyddol ehangach. Gan hynny, amcan adran nesaf yr erthygl hon fydd amlinellu'r dolenni gwan yn y cylch, ac felly cwmpasu'r potensial sydd o fewn deddfwriaeth ieithyddol i newid ymddygiad ac i greu cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r iaith o fewn gofod penodol.

## Torri'r cylch diffyg defnydd

Yn ei grynswth, does ond un ffordd o dorri'r cylch diffyg defnydd, a hynny yw drwy gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith leiafrifol. Dim ond drwy newid ymddygiad ieithyddol yn unig y gellir gwneud hyn. Hawdd ydyw felly adnabod y feddyginiaeth. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn o sut i gyflawni'r newid mewn ymddygiad ieithyddol yn llawer iawn mwy dyrys i'w ateb. Serch hynny, o fewn y cylch diffyg defnydd a adnabuwyd, gellir gweld nifer o ddolenni gwan lle gellir newid y rhediad ac, felly, pe gellid torri'r dolenni gwan hyn yna gellid newid ymddygiad ieithyddol mewn modd sylweddol. Amcan adran nesaf yr erthygl hon, felly, yw ystyried ymhle y gellir canfod y dolenni gwan, ac adnabod sut i fynd ati i'w torri.

47 Shohamy, *Language Policy, op.cit.*, 68.

48 Morris, D. a Williams, G., *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2000), 194.

***Gwendid 1: Cynllunio mewn modd anffurfiol***

Yn gyntaf, bydd cynyddu'r cyfleodd i ddefnyddio iaith leiafrifol ar raddfa anffurfiol yn annog ei defnydd mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol. Dadleua Shohamy[49] fod polisïau ieithyddol sydd yn gweithredu o'r top i lawr yn orthrymus yn eu heffeithiau, gan eu bod yn breinio ffurfiau `cywir' iaith benodol, ac yn dieithrio ffurfiau mwy anffurfiol, ac felly hefyd yr unigolion sydd yn siarad y ffurfiau hynny. Eglura:

> Forcing people to use languages in certain ways can also be viewed as a form of oppression as it is clear that "the correct way" is only a way used by certain individuals and groups...The prestigious languages are recorded in dictionaries, textbooks and other formal texts and are viewed as good models that are here to stay, while "the other" varieties are rejected and forbidden from use...[50]

Cyflwyna felly'r safbwynt fod angen ymwrthod rhag ymyrryd mewn cynllunio ieithyddol, gan fabwysiadu ymagwedd farchnad rydd i ddewisiadau ieithyddol.

Er bod llawer o fanteision i safbwynt o'r fath gan ei fod yn ennyn ymdeimlad o berchnogaeth ymysg siaradwyr, gall meddylfryd marchnad rydd o'r fath greu sefyllfa lle, er bod penrhyddid i unigolion lunio'u gofodau ieithyddol eu hunain, y mae hefyd yn creu delwedd o ryddid dewis sydd yn peri mai dewis yr iaith fwyafrifol fyddai'r ymateb tebycaf; mae hwn yn batrwm y mae Phillipson eisoes wedi ei ganfod yng nghyd-destun yr Undeb Ewropeaidd.[51] Er gwaethaf y peryglon hyn, fodd bynnag, y mae'r ddadl a gyflwynir gan Shohamy, lle pwysleisir y cysyniad o ddatblygu defnydd iaith mewn modd sydd yn caniatáu defnydd yr iaith leiafrifol mewn modd naturiol ac anarwyddocaol, yn gam pwysig tuag at normaleiddio'r iaith leiafrifol mewn gofodau penodol.

I'r perwyl hynny, pwysleisia Shohamy yr angen i ystyried safbwyntiau darparwyr a defnyddwyr wrth greu polisi ieithyddol.[52] Eglura ei bod yn rhaid i gynllunwyr polisi ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ymddygiad ieithyddol presennol er mwyn datblygu'r gofodau hynny lle mae defnyddio'r iaith leiafrifol yn bwysig i'w siaradwyr.[53] Dadleua hefyd nad oes sylw digonol wedi ei roi i safbwyntiau hyfforddwyr ac athrawon (ac yng nghyd-destun yr erthygl hon, gellir ehangu hyn i ystyried darparwyr ieithyddol eraill) ynghylch beth yw effeithiau polisïau ieithyddol.[54] Enghraifft o'r hyn y mae Shohamy yn ei hawlio yma yw ystyried y modd y gall athrawon adrodd ar sut mae polisïau addysgol wedi effeithio ar ymddygiad – a yw'n ehangu'r defnydd ieithyddol i ofodau anffurfiol megis y cae chwarae, ynteu a yw'n achosi adwaith negyddol gan beri i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith fwyafrifol pan fyddant y tu allan i reolaeth y sefydliad.

---

[49] Shohamy, *Language Policy, op.cit.*

[50] *Ibid*, 9.

[51] Phillipson, *English Only Europe? op.cit.*, 6.

[52] Shohamy, *Language Policy, op.cit.*, 138.

[53] *Ibid*, 140.

[54] *Ibid*, 141.

Gan hynny, y cam cyntaf ar gyfer torri'r ddolen wan yn y cylch diffyg defnydd yw ystyried sut y gellir datblygu gofodau ieithyddol anffurfiol. Gall siaradwyr yr iaith leiafrifol o fewn mudiad fod yn hynod arwyddocaol yn hyn o beth, gan y gallant fod yn fwy ymwybodol na rheolwyr y sefydliad o'r darpariaethau y mae angen iddynt fod ar gael yn ddwyieithog, a hefyd o'r darpariaethau cyfredol nad ydynt yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, fel yr awgryma Shohamy, ni ddylai'r broses o greu gofodau ieithyddol anffurfiol weithredu fel polisi sydd yn amlwg yn un sydd yn gweithredu o'r top i lawr. Yn hytrach, dylid cynllunio er mwyn normaleiddio'r iaith leiafrifol fel iaith anarwyddocaol, lle gall siaradwyr ei defnyddio yn naturiol heb deimlad o orfodaeth. Fodd bynnag, gellir cyfeirio'r ddarpariaeth drwy astudio'r ymddygiad ieithyddol a'r effeithiau a'r adweithiau i'r polisïau presennol, a hefyd drwy ddatblygu ymwybyddiaeth o'r sefyllfaoedd hynny lle mae defnyddio'r iaith leiafrifol yn bwysig. Effaith hyn yw democrateiddio'r defnydd ieithyddol ac annog ymdeimlad o berchnogaeth ymysg ei siaradwyr. Drwy i ddefnyddwyr a darparwyr allu cyfrannu i'r broses o gynllunio ieithyddol, gallant greu gofodau ieithyddol, ac felly newid eu tueddiadau ieithyddol cyfredol. Y mae'n anochel y byddai'r broses o greu gofodau o'r fath yn golygu ymchwil trylwyr, ac ymgais i sicrhau cyfranogiad gan bob sector o'r gymdeithas. Serch hynny, y mae'n brosiect a fyddai'n galluogi corff cenedlaethol megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lunio polisïau ieithyddol a fyddai â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar ymddygiad ieithyddol unigolion, ac yn brosiect a allai fod yn arloesol o safbwynt amddiffyn iaith leiafrifol.

Ar gyfer y cyd-destunau ieithyddol penodol y cyfeirir atynt uchod, sef gweinyddu cyfiawnder ac addysg ôl-16, gellir awgrymu camau penodol lle gellir annog defnydd y Gymraeg mewn modd anffurfiol. Myth yn ôl Shohamy[55] yw ystyried dwyieithrwydd fel dwy ffrwd ieithyddol ar wahân, a bod siaradwr, er enghraifft, naill ai yn defnyddio'r Gymraeg neu yn defnyddio'r Saesneg. Golyga dwyieithrwydd berthynas lawer mwy hyblyg rhwng y ddwy iaith, a bod siaradwyr, felly, yn plethu'r ddwy iaith wrth gyfathrebu. Gan hynny, wrth ddefnyddio'r Gymraeg, gallant gynnwys geiriau neu gystrawen Saesneg, neu ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu cysyniadau gwahanol. Fodd bynnag, effaith y ffurfioli ieithyddol a geir yn sgil y Ddeddf Iaith yw gorfodi defnyddwyr i ffrydio'u gallu ieithyddol, ac felly eu rhwystro. Cam pwysig felly er mwyn torri'r cylch diffyg defnydd yw cydnabod fod cyd-blethu'n digwydd rhwng dwy iaith, ac felly annog cyfathrebu mewn modd nad yw'n dilorni'r cyd-blethu hwn fel ymddygiad ieithyddol annerbyniol.

Yn y cyd-destun cyfreithiol, er enghraifft, gwelwyd fod y system gyfreithiol yn breinio'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ysgrifenedig. Pwysleisia'r cynlluniau iaith y ddyletswydd i ddarparu adroddiadau a dogfennau yn ysgrifenedig, a threfnir achos llys yn Gymraeg pan fydd unigolyn yn llenwi ffurflenni yn y Gymraeg.[56] Fodd bynnag, oherwydd y gwahaniaethau rhwng Cymraeg llafar a Chymraeg ysgrifenedig, fel yr eglurir gan Jones,[57] effaith hyn yw breinio ffurf gymhleth a phur yr iaith, mewn modd sydd yn anghyfarwydd i drwch helaeth ei siaradwyr. Hefyd, crëir rhagdybiaeth fod y sawl sydd am ddefnyddio'r

55 *Ibid*, 34.

56 Huws, C.F., 'Iaith y Nefoedd ac Iaith y Llysoedd' (2007), 38 *Cambrian Law Review*, 117–44, 132.

57 Jones, *Ar Lafar ac Ar Bapur, op.cit.*, 2.

Gymraeg mewn achos llys yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng llafar ac fel cyfrwng ysgrifenedig fel ei gilydd. Fodd bynnag, y mae'n hynod debygol y gallai unigolyn fod yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng llafar, yn enwedig mewn sefyllfa pan fydd yn cyfathrebu ar lafar, ond yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ysgrifenedig.

Rhaid felly ymgeisio i freinio ffurfiau llafar y Gymraeg, drwy ehangu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg naill ai wrth gyfathrebu ar y ffôn, neu wrth gyfathrebu ar lafar. Yn y cyd-destun cyfreithiol golyga hyn adnabod y sefyllfaoedd lle daw'r defnyddiwr i gysylltiad â darparwyr ar lafar, ac yn sgil hynny sicrhau fod modd i ddefnyddwyr gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er y ceir trafodaeth ehangach ar sut i unioni anghyfartaleddau Deddf yr Iaith Gymraeg mewn gwaith blaenorol[58] gellir cyfeirio yma at rai enghreifftiau priodol. Fodd bynnag, yn unol ag argymhellion Shohamy, nid amcan yr erthygl hon yw cymell polisïau ar fudiadau, ond yn hytrach ddangos sut y gall y sefydliadau hynny sydd yn ymdrin â gweinyddu cyfiawnder ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer hybu defnydd y Gymraeg mewn gofodau anffurfiol. Serch hynny, ar sail ymchwil flaenorol, gellir adnabod sefyllfaoedd lle nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn hybu defnydd y Gymraeg.

Un sefyllfa benodol lle canfuwyd diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg oedd yn yr orsaf heddlu[59] lle nad oedd siaradwyr Cymraeg a chyfreithwyr ar ddyletswydd bob amser ar gael ar gyfer cynnal cyfweliadau. Golygai hyn ei bod yn rhaid i unigolyn naill ai ddisgwyl am gyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg neu dderbyn y cyfweliad drwy gyfrwng y Saesneg. Fodd bynnag, drwy ad-drefnu a chynllunio ar gyfer argaeledd staff dwyieithog, gellid trefnu yn y mwyafrif o sefyllfaoedd fod darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael, drwy sicrhau fod heddweision a chyfreithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg ar ddyletswydd ynghyd â rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Hefyd, yn y cyd-destun cyfreithiol, gall cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i ofod y llys annog defnydd ymysg defnyddwyr y llysoedd. Gan hynny, gall ymdrechion gan fudiadau cefnogi a chynghori megis Cymorth i Ddioddefwyr a Chanolfannau Cynghori, lle gellir annog defnyddio'r Gymraeg mewn gofodau mwy anffurfiol, wneud gwahaniaeth sylweddol i lefelau defnydd y Gymraeg mewn cyd-destun cyfreithiol. Y mae'n dilyn wedyn y daw'n haws i'r asiantaethau hynny wneud cysylltiad â'r llysoedd, er mwyn eu hysbysu o fwriad y defnyddiwr i ddefnyddio'r Gymraeg. Yna gellir trefnu ymlaen llaw bod darpariaethau megis mainc ynadon ar gael fel bod modd sicrhau fod yr achos yn digwydd yn Gymraeg. Byddai cynllunio ieithyddol anffurfiol o'r fath yn debygol o annog defnydd llawer ehangach o'r Gymraeg nag a geir yn sgil y Ddeddf Iaith, lle mae cynllunio ieithyddol yn broses sydd yn ffurfioli defnydd y Gymraeg, ac felly'n dieithrio defnyddwyr. Drwy gynllunio ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn modd mwy anffurfiol, ni bydd dewis iaith felly yn fater o safiad penodol, ac felly daw defnyddio'r Gymraeg yn rhywbeth mwy naturiol a chyffredin.

Yn y cyd-destun addysgol y mae llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer defnyddio iaith leiafrifol mewn cyd-destun anffurfiol. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, mae'n anochel fod

58 Huws, *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts, op.cit.*

59 *Ibid*, 329.

yr amcanion yn wahanol, gan mai amcan y cyd-destun addysgol yw datblygu sgiliau ieithyddol mewn cyweiriau ffurfiol yn ogystal â galluogi myfyrwyr i ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol cynhenid. Er bod asesu ffurfiol yn mesur galluedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng pwnc, nid yw'n meithrin sgiliau cynhenid y myfyrwyr hynny sydd yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol, ond yn llai parod i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng astudio.

Gan hynny, nid yw cynnig darpariaeth ffurfiol ynddo'i hun yn ddigonol, gan nad yw'n galluogi myfyrwyr i fagu rhuglder yn eu maes pwnc mewn modd na chaiff ei asesu. Serch pwysigrwydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, nid yw myfyrwyr yn awyddus i gynhyrchu gwaith ffurfiol yn y Gymraeg[60] ac felly nid oes cyfle iddynt ymarfer ymdrin â'u maes pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy gynnig gofodau anffurfiol ar gyfer meithrin galluedd pwnc felly, gellir meithrin sgiliau ieithyddol y myfyrwyr hynny nad ydynt yn dymuno cyflwyno gwaith ysgrifenedig ar gyfer ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond hefyd eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng ffurfiol.

Wrth gwrs, y mae'n debygol y bydd y dulliau o gyflawni hyn yn wahanol ar gyfer gwahanol bynciau, gyda gweithgareddau megis siarad cyhoeddus neu sylwebu ar ddatblygiadau diweddar efallai yn debygol o fod yn fwy atyniadol mewn meysydd megis y gyfraith a gwleidyddiaeth na'r gwyddorau traddodiadol. Adrannau unigol a disgyblaethau unigol sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ar gyfer canfod pa fath o ofodau pynciol anffurfiol y gellir eu creu. Fodd bynnag, yr hyn sydd yn hollbwysig yw fod datblygiadau o'r fath yn digwydd law yn llaw â datblygiadau mwy ffurfiol, gyda'r nod o feithrin sgiliau ieithyddol cynhenid – a sgiliau llafar ac yna'u datblygu'n ffurfiol. Gan hynny, gall y sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fod yn flaenllaw wrth ddatblygu'r ddarpariaeth drwy ganfod dulliau o annog myfyrwyr i feithrin eu harbenigedd o'u maes pwnc mewn gofodau anffurfiol, gyda chyfleoedd ar gyfer adborth ffurfiannol, yn hytrach na'r pwyslais a geir ar hyn o bryd ar adborth terfynol.

Nid yw'n bosib o fewn cyfyngiadau'r erthygl hon i gynnig holliachâd ar gyfer pob maes pwnc mewn addysg bellach ac addysg uwch. Fodd bynnag, yr hyn a anogir yw newid meddylfryd, drwy ystyried mai'r hyn y dylid ei bwysleisio yw sut y gellir newid ymddygiad ieithyddol, yn hytrach na'r hyn y gellir ei ddarparu. Yr hyn a ddadleuir yw nad yw'r pwyslais ar ddarparu adnoddau yn mynd i arwain at gynnydd yn nifer y defnyddwyr, oni bai fod cyfle iddynt ddefnyddio a meithrin eu sgiliau mewn modd anffurfiol. Trwy wyrdroi'r patrwm o ddiffyg defnydd yn anffurfiol, gellir felly feithrin y cyfleoedd ar gyfer defnyddio iaith leiafrifol mewn cyd-destunau mwy ffurfiol.

***Gwendid 2: Adnabod lle na defnyddir yr iaith***

Yr ail ddolen wan yn y cylch diffyg defnydd yw'r angen i werthuso mewn modd beirniadol a yw'r darpariaethau cyfredol yn arwain at newid mewn ymddygiad ieithyddol. Er bod y ddyletswydd i ddarparu Cynlluniau Iaith yn gorfodi sefydliadau i ystyried yr hyn y gellir ei ddarparu'n ddwyieithog yn yr hir dymor, rhaid cydnabod hefyd yr angen i werthuso a yw'r darpariaethau wedi bod yn llwyddiannus, ac os nad yw lefelau'r defnydd yn sylweddol, i ystyried sut i addasu'r ddarpariaeth.

---

60 Williams, G., 'Legal Education in Welsh: an Empirical Study' (2005), 39(3), *The Law Teacher*, 259, 263.

Yn y cyd-destun addysgol[61] y mae ymchwilwyr wedi canfod nad yw addysg oddefol yn meithrin galluedd, ac mae'r un rhesymeg yn wir mewn cyd-destun ieithyddol. Drwy arddel yr iaith mewn modd cynhyrchiol (hynny yw, drwy siarad yr iaith neu drwy ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng ysgrifenedig), y caiff rhuglder ei feithrin. Fodd bynnag, tuedd y polisïau ieithyddol cyfredol yw creu sefyllfa o ddwyieithrwydd goddefol yn hytrach na hybu defnyddwyr i gynhyrchu drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol.

Er enghraifft, mewn nifer o Gynlluniau Iaith, rhoddir y pwyslais ar ddarparu adnoddau ysgrifenedig. Gellir dadlau fod hyn yn sicrhau fod yr iaith leiafrifol yn fwy gweledol, ac y meithrinnir yr eirfa hanfodol drwy ei darllen. Dyma yw safbwynt Ni Ghearain yn y cyd-destun Gwyddelig. Dywed:

> Mae gwrthwynebwyr y Ddeddf (Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003), a'r cyfryngau Saesneg yn arbennig wedi dadlau mai gwastraff di-angen o arian y trethdalwyr yw'r cyfieithiadau am nad oes galw, ac am nad yw'n debyg y bydd galw am gyhoeddiadau o'r fath yn yr Wyddeleg. Portreadir cyhoeddiadau yn yr Wyddeleg fel rhai sy'n hynod o gostus, yn enwedig mewn perthynas â nifer y copïau o'r cyhoeddiadau hynny sy'n cael eu gwerthu...Ond fe all y math hwn o ddadl droi mewn cylchoedd; mae'r cyfieithiadau yn wastraff arian am na fydd siaradwyr Gwyddeleg yn gofyn amdanynt nac yn eu defnyddio, ond nid yw siaradwyr Gwyddeleg yn gyfarwydd â darllen cyhoeddiadau o'r fath yn yr Wyddeleg nac â chael y dewis o wneud hynny. At hynny, mae hi'n llai tebygol y gwneir cais amdanynt neu iddynt gael eu defnyddio os na ddarperir ac os na hyrwyddir mohonynt yn y lle cyntaf. Mae'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2003 wedi dadlau bod gwerth cynhenid i gyfieithu'r Wyddeleg am ei fod yn gyfle i'r iaith ddatblygu termau newydd ac y gall hefyd brofi bod modd i'r iaith fyw mewn oes o dechnoleg a chyfathrebu. Mae swyddogaeth symbolaidd neu swyddogaeth statws cynllunio corpws yn amlwg: mae datblygu corpws yr iaith yn profi bod modd i'r iaith ddatblygu.[62]

Ar y llaw arall, fodd bynnag, nid yw darparu dogfennau ysgrifenedig o reidrwydd yn annog defnydd cynhyrchiol o'r iaith leiafrifol. Oherwydd fod darparu adnoddau ysgrifenedig yn fodd o ffurfioli'r iaith, nid yw'n arwain at ddefnydd ehangach ymysg defnyddwyr sydd yn aml yn canfod y gystrawen yn anodd, a'r termau yn estron:

> Mae hyd yn oed rai o gefnogwyr a siaradwyr yr Wyddeleg, gan gyfeirio unwaith eto at y gost, wedi amau gwerth cyfieithiadau o'r fath. Dadl y beirniaid hynny yw y gellid gwneud gwell defnydd o'r buddsoddiad ariannol hwn mewn cyfieithu, a hynny mewn meysydd eraill sy'n hybu'r iaith. Dadleuant hefyd ei bod yn well gan lawer o siaradwyr yr Wyddeleg ddarllen deunydd o'r fath yn Saesneg am nad ydynt yn gyfarwydd â chywair ffurfiol yr Wyddeleg.[63]

---

61 Sadler, D.R., 'Formative Assessment and the Design of Instructional Systems' (1989), 18, *Instructional Science* 119–44, 119. Dyfynwyd yn Torrance, H. a Pryor, J., *Investigating Formative Assessment: Teaching Learning and Assessment in the Classroom* (Open University Press, Buckingham, 1998), 13.

62 Ni Ghearain, H., 'Yr Iaith Wyddeleg a'r Gyfraith: Rhai Materion o Ran Statws a Chorpws' (2007), 38, *Cambrian Law Review*, 1–38, t.31.

63 *Ibid*, t.31.

Effaith paratoi deunyddiau ysgrifenedig, heb ystyried yr isadeiladedd o ddatblygu rhuglder anffurfiol, felly, yw galluogi'r defnyddwyr i dderbyn gwybodaeth drwy gyfrwng yr iaith leiafrifol, ond heb eu hannog i gynhyrchu gwybodaeth yn yr iaith honno. Yn y cyd-destun cyfreithiol er enghraifft, darperir adroddiadau blynyddol a dogfennau ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg,[64] a hefyd ceir ymrwymiad i ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac achosion llys.[65] Canlyniad hyn, fodd bynnag, yw mai cyfieithwyr sydd yn defnyddio'r Gymraeg mewn modd cynhyrchiol yn y sefyllfaoedd hyn, ac mai dim ond derbyn gwybodaeth a wna'r defnyddwyr a'r darparwyr. Crëir felly sefyllfa o ddwyieithrwydd goddefol, gan nad yw'n meithrin galluedd dwyieithog ymysg darparwyr na defnyddwyr.

Er mwyn annog defnyddio'r Gymraeg felly, rhaid i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg weithredu mewn modd dwy-ffordd, lle derbynnir a lle cynhyrchir gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan hynny, rhaid ystyried yn feirniadol a yw'r darpariaethau cyfredol yn llwyddo i gyflawni'r amcan hwn. Yn y cyd-destun cyfreithiol y mae prosesau megis y broses o wysio defnyddwyr y llysoedd, llythyru, a chyfathrebu ar y ffôn ac mewn sefyllfaoedd wyneb i wyneb i gyd yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae'r defnyddiwr a'r darparwr yn defnyddio'r Gymraeg mewn modd cynhyrchiol, ac felly yn feysydd lle dylid hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Ar y llaw arall, bydd darpariaethau sydd yn cynnig cyfathrebiad unffordd yn unig ond yn annog defnydd goddefol o'r Gymraeg. Yn y cyd-destun addysgol, er enghraifft, nid yw cyfieithu llu o ddogfennau swyddogol yn arwain at ddefnydd cynhyrchiol o'r Gymraeg, gan nad yw'n galluogi myfyrwyr nac addysgwyr i ymdrin â'u maes pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hyn, pan fydd defnyddwyr a darparwyr iaith leiafrifol yn defnyddio'r iaith mewn modd cynhyrchiol, bydd darparu dogfennau ysgrifenedig (boed yn wreiddiol neu'n gyfieithiadau) yn esblygu o hynny. Bydd darparwyr, er enghraifft, yn gallu darparu deunyddiau dwyieithog yn hytrach na derbyn cyfieithiadau, a bydd defnyddwyr mewn sefyllfa fwy positif i ddarllen y deunyddiau yn eu dewis iaith yn hytrach na'r iaith sydd yn fwy cyfarwydd ar gyfer darllen dogfennau ffurfiol.

Yn ogystal ag adnabod y gofodau hynny lle nad yw'r ddarpariaeth yn arwain at ddefnydd cynhyrchiol o iaith leiafrifol, rhaid adnabod hefyd y gofodau hynny lle mae angen darparu gwasanaeth dwyieithog. Wrth lunio polisïau ieithyddol, y mae'n bwysig canolbwyntio nid yn unig ar yr hyn y gellir ei ddarparu ond hefyd ar yr hyn y dylid ei ddarparu. Golyga hyn feithrin cyswllt mwy uniongyrchol â'r defnyddwyr a hynny er mwyn canfod pa wasanaethau sydd yn bwysig iddynt o safbwynt defnyddio'r iaith, er mwyn arolygu'r meysydd hynny lle defnyddir yr iaith leiafrifol, ac er mwyn dyfeisio ffyrdd o feithrin y ddarpariaeth yn y sefyllfaoedd hynny. Ym maes y gyfraith, er enghraifft, yr hyn sydd yn

---

64 Ceir trafodaeth ehangach o gynnwys Cynlluniau Iaith yr asiantaethau gweinyddu cyfiawnder yn: Huws, *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts*, *op.cit.*, 158–93 a Huws, C.F., 'Sut Mae Cynllun Iaith Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn Cymharu Gyda Chynlluniau Iaith y Gwasanaeth Llys a'r Pwyllgorau Llysoedd Ynadon?' (2006), 4(3), *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru* 229–313.

65 Huws, 'Sut Mae Cynllun Iaith Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn Cymharu Gyda Chynlluniau Iaith y Gwasanaeth Llys a'r Pwyllgorau Llysoedd Ynadon?', *op.cit.*, 229–313.

debygol o hybu defnydd iaith leiafrifol yw argaeledd dwyieithrwydd yn y sefyllfaoedd lle daw defnyddwyr i gysylltiad â darparwyr. Os bydd y cysylltiadau hynny yn digwydd yn ddwyieithog, gall y darparwyr sicrhau fod darpariaethau olynol yn digwydd drwy gyfrwng dewis iaith y defnyddiwr. Er enghraifft, fe all fod yn fwy manteisiol i ddefnyddwyr y llysoedd allu cyfathrebu ar lafar gyda chynrychiolwyr cyfreithiol, a chynorthwywyr unigol mewn sefyllfaoedd un wrth un, nag i ddefnyddio'r iaith mewn gofod mwy cyhoeddus. Fodd bynnag, heb archwilio patrymau defnydd a diffyg defnydd, gall sefydliadau a mudiadau fod yn gweithredu polisïau mewn modd nad yw'n effeithio ar ymddygiad ieithyddol, drwy barhau i ymdrechu i ddarparu gwasanaethau sydd yn dieithrio defnyddwyr.

Yn yr un modd, o fewn y system addysg os gellir adnabod y dolenni cyswllt lle mae angen darpariaeth ddwyieithog, yna gellid newid ymddygiad ieithyddol. Eto y mae angen archwilio pa wasanaethau a ddefnyddir yn Gymraeg, ac ystyried pa wasanaethau a darpariaethau sydd yn debygol o effeithio ar ymddygiad ieithyddol. Gan hynny, fe all cyfieithu adnoddau pwnc arwain at fwy o barodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng astudio nag y gwnâi cyfieithu deunyddiau gweinyddol a gynhyrchir drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw cynnig cyfle i ddarllen deunyddiau drwy gyfrwng yr iaith ddewis yn newid ymddygiad oni bai eu bod yn ddeunyddiau sydd yn galluogi defnyddwyr i adeiladu ar y darpariaethau hynny mewn modd cynhyrchiol, naill ai drwy ddefnyddio'r iaith fel cyfrwng llafar neu fel cyfrwng ysgrifenedig. Fodd bynnag, oni bai bod rhuglder cynhyrchiol yn cael ei feithrin, y mae'n debygol y bydd y patrwm o ddiffyg defnydd a adwaenir gan Ni Ghearain yn parhau.

Er mwyn gweithredu'r polisïau cyfredol mewn modd ystyrlon, felly, rhaid ystyried yn feirniadol pa ddarpariaethau nad ydynt yn llwyddo i newid ymddygiad ieithyddol, ac yna naill ai eu diwygio mewn modd a fyddai'n cyflawni'r nod hwn, neu werthuso pa ddarpariaethau sydd yn debygol o newid ymddygiad ieithyddol. Golyga hyn arfarnu lefelau defnydd, a chanfod pa wasanaethau y byddai'n fanteisiol i'w darparu. Os yw'r darpariaethau'n galluogi defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd cynhyrchiol, yna gallant newid ymddygiad ieithyddol. Fodd bynnag, os mai defnydd goddefol o iaith leiafrifol a gynhyrchir, yna ni bydd newid mewn ymddygiad ieithyddol. Yr ail gam er mwyn torri'r gylchred diffyg defnydd, felly, yw'r cyfleoedd sydd yn bodoli ar gyfer gwerthuso polisi ieithyddol ac felly eu hesblygu yn sgil canfyddiadau ynghylch effeithrwydd y polisïau a fabwysiadir.

***Gwendid 3: Defnyddio adnoddau mewn modd strategol***

Mewn llawer sefydliad neu fudiad, y mae sawl adnodd dwyieithog eisoes yn bodoli. Yr adnodd pwysicaf er mwyn hybu newid mewn ymddygiad ieithyddol yw siaradwyr yr iaith leiafrifol. Fodd bynnag, yn aml ni bydd sefydliadau'n cynllunio eu gweithlu mewn modd sydd yn sicrhau fod y sawl sydd yn gallu gweithredu'n ddwyieithog yn cael y cyfle i wneud hynny'n effeithiol. Gan hynny, cam pwysig tuag at newid ymddygiad ieithyddol hirsefydlog yw i sefydliadau ystyried sut i ad-drefnu eu gweithlu mewn modd fydd yn sicrhau fod swyddogaethau lle mae angen darpariaeth ddwyieithog yn cael eu cyflawni gan y staff sydd yn weithredol ddwyieithog, tra bo swyddogaethau lle nad yw amlieithrwydd mor berthnasol yn cael eu cyflawni gan staff nad ydynt yn ddwyieithog. Yn y sefyllfa gyfreithiol, dylai'r pwyslais fod ar sicrhau fod y sawl sydd yn gyswllt cyntaf i ddefnyddwyr yn gallu

gweithredu'n ddwyieithog. Gallant hwy wedyn sicrhau fod cysylltiadau olynol yn gallu digwydd drwy gyfrwng dewis iaith y siaradwr. Hefyd, drwy rwyddhau'r cyfle i wneud dewis ieithyddol anarwyddocaol wrth gyfathrebu ar lafar, lleiheir effeithiau'r dieithrio a geir o ffurfioli ieithyddol. Gan hynny, fe all y sefydliadau gweinyddu cyfiawnder newid ymddygiad ieithyddol drwy greu gofodau lle gellir rhagdybio defnyddio'r Gymraeg mewn modd nad yw'n cynrychioli safiad penodol na defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfa ffurfiol.

Yn yr un modd, gall sefydliadau addysgol weithredu mewn modd a all wneud defnydd mwy ystyrlon o adnoddau cyfredol. Eto fe all addysgwyr nad ydynt yn medru'r Gymraeg ddarparu adnoddau uniaith mewn modd sydd yn rhyddhau'r staff dwyieithog i ddatblygu'r darpariaethau yn y Gymraeg. Hefyd gall swyddogaethau cyfieithu weithredu mewn modd sydd yn sicrhau darpariaeth o adnoddau sydd yn rhwyddhau'r broses o gynhyrchu ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir adnabod hefyd sut y gall llunio cwricwlwm addysgol weithredu mewn modd sydd yn arwain at ddefnydd mwy strategol o adnoddau. Rhaid cydnabod nad yw'n bosib cynhyrchu drwy gyfrwng y Gymraeg yr holl adnoddau addysgol a gynhyrchir yn Saesneg. Fodd bynnag, mae'n bosib cynhyrchu a defnyddio adnoddau y gellir eu defnyddio ar draws meysydd pwnc ac is-ddisgyblaethau. O fewn y byd ymchwil, rhoddir pwyslais cynyddol ar waith ymchwil sydd yn aml-ddisgyblaethol ei naws, gan gyplysu arbenigedd cyfreithwyr a llenorion, gwleidyddion a theorïwyr perfformiad, daearyddwyr a gwyddonwyr biolegol. O fewn datblygiad adnoddau ar gyfer ieithoedd lleiafrifol, y mae cyfleoedd lu ar gyfer datblygu adnoddau aml-ddisgyblaethol o'r fath, a byddai'r rheiny'n arwain at gynhyrchu adnoddau a fyddai, yn eu tro, yn arwain at ddefnydd cynhyrchiol o iaith leiafrifol gan ystod ehangach o fyfyrwyr.

Ofer ydyw dadlau petai mwy o staff neu fwy o adnoddau, neu fwy o arian, y byddai sefyllfa iaith leiafrifol yn well – gwirionedd sefyllfa iaith leiafrifol yw'r angen i ddefnyddio'r adnoddau sydd yn bodoli, a'r gallu i greu adnoddau newydd mewn modd strategol. Fodd bynnag, er anodded y dasg hon, mae'n dasg y gellid ei chyflawni o sicrhau bod defnyddwyr a darparwyr yn chwarae rôl mwy blaenllaw wrth lunio polisïau ieithyddol.

## Casgliad

Gwelir felly fod potensial i weithredu'r fframweithiau cyfredol mewn modd llawer iawn mwy ystyrlon. Tueddir ar hyn o bryd i'w defnyddio mewn modd sydd yn cynnig ateb sydyn i'r gofynion, ond mewn modd nad yw'n newid ymddygiad ieithyddol a fyddai'n rhwyddhau'r broses o sicrhau fod siaradwyr yr iaith leiafrifol yn gallu defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ymarferol. Ni bydd deddfwriaeth ychwanegol yn newid hyn, gan nad yw'r sawl sydd yn llunio'r ddeddfwriaeth yn debygol o weld yr angen i newid ymddygiadau ieithyddol cyfredol. Fodd bynnag, gyda gweledigaeth a thrwy gynllunio ar gyfer blaenoriaethu'r sefyllfaoedd lle mae angen darpariaeth ddwyieithog sydd yn arwain at ddefnydd cynhyrchiol gan ddefnyddwyr, gellir defnyddio'r ddarpariaeth gyfredol mewn modd positif fydd yn llwyddo i newid ymddygiad ieithyddol. Rhaid torri'r cylch diffyg defnydd. Rhaid creu cylchred newydd.

## Llyfryddiaeth ddethol


Aitchison, J a Carter, H., *Spreading the Word: the Welsh Language 2001* (Talybont, Y Lolfa, 2004).

Ambrose, J. a Williams, C.H., *Scale as an Influence on the Geolinguistic Analysis of a Minority Language* (Adran Ddaearyddiaeth a Daeareg, North Staffordshire Polytechnic, 1981).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 'Trosglwyddo'r Iaith o Fewn y Teulu. Dadansoddiad Ystadegol' www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/550.doc (Cyrchwyd Awst 24ain, 2010).

Cameron D., 'Language endangerment and verbal hygiene: history, morality and politics 'Yn Duchêne, A. a Heller, M., *Discourses of Endangerment* (Continuum, Llundain, 2008), 268–85.

Deddf yr Iaith Aeleg 2005 (2005, asp 7).

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (1993, c.38).

Deddf Llysoedd Cymru 1942 (5 & 6 Geo 6 c.40.)

The Education (National Curriculum) (Exceptions in Welsh at Key Stage 4), Regulations 1994 SI 1270.

Estyn. Darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog ar Gyfer Dysgwyr 14-19 Oed. http://estyn.co.uk/ThematicReports/cy_0508_Darpariaeth_Gymraeg_a_dwyieithog_ar_gyfer_dysgwyr_14_19_oed.pdf (Cyrchwyd Awst 23ain, 2010).

Fishman, J.A., *Can Threatened Languages Be Saved?* (Multilingual Matters, Clevedon, 2001).

Fishman, J.A., *Do Not Leave Your Language Alone* (Lawrence Erlbaum Associates, Mahwah, NJ, 2006).

Heller, M., 'The Politics of Codeswitching and Language Choice'. Yn Eastman, C. M. (gol.), *Codeswitching.* (Multilngual Matters, Clevedon, 1992), 123–42.

Herman, S.R., 'Explorations in the Social Psychology of Language Choice'.Yn Fishman, J,A, (gol.), *Readings in the Sociology of Language* (Mouton & Co, The Hague, 1968), 492–511.

Huws, C.F., *An Empirical Study into the Use of the Welsh Language in the Courts in the Twenty-First Century* (Traethawd doethuriaeth, Aberystwyth, 2005).

Huws, C.F., 'Sut Mae Cynllun Iaith Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn Cymharu Gyda Chynlluniau Iaith y Gwasanaeth Llys a'r Pwyllgorau Llysoedd Ynadon?' (2006), 4(3), *Cylchgrawn Cyfraith a Pholisi Cymru* 229–313.

Huws, C.F., 'Iaith y Nefoedd ac Iaith y Llysoedd' (2007), 38, *Cambrian Law Review*, 117–44.

Jones, B.M., *Ar Lafar ac Ar Bapur* (Y Ganolfan Astudiaethau Addysg, Aberystwyth, 1993).

Jones, K. a Morris, D., 'Welsh Language Socialisation Within the Family' (2007), 20(1), *Contemporary Wales*, 52–70.

Judge, A., *Language Policies and the Survival of Regional Languages in France and Britain* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2007).

Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg,* Ebrill 2010. http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf (Cyrchwyd Awst 16eg, 2010).

The Lord Chancellor's Sub-Committee on the Welsh Language, *A Report of the Criminal Justice Sub-Committee on the use of the Welsh Language in the Criminal Justice System in Wales* (2002).

Mac Giolla Chríost, D., 'Globalisation and Transformation: Language Planning in New Contexts'. Yn Nic Craith, M., *Language Power and Identity Politics* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2007), 21–43.

May, S., 'Misconceiving Minority Language Rights: Implications for Liberal Political Theory'. Yn Kymlicka, W. a Patten, A., *Language Rights and Political Theory* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2003), 123–53.

Morris, D. a Williams, G.,*Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2000).

Myers-Scotton, C., 'A Theoretical Introduction to the Markedness Model'.Yn Myers-Scotton, C., *Codes and Consequences: Choosing Linguistic Varieties.* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1998), 18–38.

Myers-Scotton, C., *Multiple Voices: An Introduction to Bilingualism* (Blackwell Publishing, Malden a Rhydychen, 2006).

Ni Ghearain, H., 'Yr Iaith Wyddeleg a'r Gyfraith: Rhai Materion o Ran Statws a Chorpws' (2007), 38, *Cambrian Law Review*, 1–38.

Owen, R., 'Welsh Medium Education at Glamorgan', UK Centre for Legal Education, Curriculum Content and Development. Cyhoeddwyd 2004. http://www.ukcle.ac.uk/resources/curriculum-content-and-development/owen/ (Cyrchwyd Awst 23ain, 2010).

Phillipson, R., *English Only Europe: Challenging Language Policy* (Routledge, Llundain, 2003).

Preece, S., *Posh Talk: Language and Identity in Higher Education* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2009).

Sadler, D.R., 'Formative Assessment and the Design of Instructional Systems' (1989), 18, *Instructional Science*, 119–44.

Shohamy, E., *Language Policy: Hidden Agendas and New Approaches* (Routledge, Llundain, 2006).

Torrance, H., a Pryor, J., *Investigating Formative Assessment: Teaching Learning and Assessment in the Classroom* (Open University Press, Buckingham, 1998).

Turell, M.T., 'Spain's Multilingual Make-up: Beyond, Within and Across Babel'. Yn Turell, M.T., *Multilngualism in Spain* (Multilingual Matters, Clevedon, 2001), 1–57.

Williams, G., *Sustaining Language Diversity In Europe* (Palgrave Macmillan, Houndmills, 2005).

Williams, G., 'Legal Education in Welsh' (2005), 39(3), *The Law Teacher,* 259, 260.

Y Pwyllgor Cyllid, *Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol Mesur Arfaethedig y Gymraeg*, Awst 2010. http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld8186 (Cyrchwyd Medi 6ed, 2010).

Young, E.M., *Chwarter i Hanner Nos – A Oes Modd Datrys Picil Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg?* (UCAC, Aberystwyth, 2005), 13.

Ystadegau Gwladol, Y Gymraeg mewn Sefydliadau Addysg Uwch, 2007/08. SB 40/2009 (Mehefin 2009). http://wales.gov.uk/docs/statistics/2009/090630sb402009cy.pdf (Cyrchwyd Awst 23ain, 2010).

Dr Sally Baker, Mr Hefin Gwilym,
a Dr Brian J. Brown

# Trafodaeth feirniadol o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru

---

Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261
Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Trafodaeth feirniadol o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru

*Dr Sally Baker, Mr Hefin Gwilym, a Dr Brian J. Brown*

## Cyflwyniad

Yn yr erthygl hon, byddwn yn trafod yn feirniadol gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol. Byddwn yn trafod yn fras hanes cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol ac yn ystyried y problemau a'r paradocsau sydd ynghlwm â'r syniadau a'r arfer cyfredol. Deilliodd y gwaith hwn o werthusiad cychwynnol o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru.

Penderfynasom fynd â'r gwaith y tu hwnt i werthusiad wedi i ni sylweddoli fod ein canlyniadau yn rhyfedd o debyg i ganlyniadau gwerthusiadau eraill tebyg a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Roedd bwriadau da iawn, ynghyd â phroblemau cyffredin i bawb a oedd ynghlwm â'r gwaith, yn gasgliadau amlwg iawn yn yr astudiaethau hyn. Penderfynasom felly ystyried y problemau a'r paradocsau sydd ynghlwm â swyddogaeth defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr ym maes addysg gwaith cymdeithasol. Byddai cyhoeddi profiad y defnyddwyr/gofalwyr a'r myfyrwyr yn y sefydliad yn tynnu sylw unwaith yn rhagor at gyfyngiadau cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol, ond ni fyddai'n rhoi unrhyw awgrym ynglŷn â pham mae'r cyfyngiadau hyn yn parhau, er gwaethaf yr holl ewyllys da a'r holl ymdrech.

Byddwn yn awgrymu ei fod yn bosib rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gyfrannu mewn modd ystyrlon at raglenni gradd gwaith cymdeithasol, heb roi swyddogaeth addysgwr. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad oes gan bob un ohonynt yr hyder i ymgymryd â'r swyddogaeth hon na'r dymuniad i'w chyflawni. Fodd bynnag, mae gan rai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gymwysterau a phrofiad o hyfforddi pobl ac efallai yr hoffai eraill eu hennill. Byddwn yn cwestiynu'r model ymarfer cyfredol, yn ogystal â'r diffyg eglurder o ran cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at y gwaith o addysgu a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.

## Cefndir 'cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth' at addysg gwaith cymdeithasol

Mae polisïau Llafur Newydd sy'n ymwneud â'r gwasanaethau iechyd a lles cymdeithasol wedi rhoi pwys mawr ar y syniad o gyfraniad defnyddwyr, er mai'r ddeddfwriaeth gyntaf yn y DU i wneud cyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth at gynllunio gwasanaeth yn ofynnol oedd Deddf y GIG a Gofal Cymdeithasol 1990, a ddaeth i rym dan lywodraeth Geidwadol.Dilynwyd hon gan bolisïau a deddfwriaethau eraill, oedd i gyd yn rhoi pwyslais mawr ar gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth fel budd-ddeiliad pwysig ym maes darparu gwasanaeth, a'r angen i newid gwasanaethau mewn ymateb uniongyrchol i anghenion

defnyddwyr. Mae cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth wedi ei ymestyn i addysg a hyfforddiant ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac mae wedi cael croeso arbennig o gynnes gan y maes gwaith cymdeithasol.

Er bod defnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn cyfrannu at addysg gwaith cymdeithasol i ryw raddau ers y 1980au, ni ddaeth gwir awydd iddynt gyfrannu'n strategol at hyfforddiant gwaith cymdeithasol cyn canol y 1990au. Hyd yn oed wedyn, roedd eu cyfraniad yn *ad hoc* ac yn bytiog ac yn canolbwyntio ar broblemau'r defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn hytrach nac ar eu syniadau am sut y dylai gweithwyr cymdeithasol weithio (Beresford et al., 2006). Roedd cyfraniad uniongyrchol defnyddwyr gwasanaeth at y cwrs Diploma Gwaith Cymdeithasol yn fach iawn. Mae un o'r awduron (HG) yn cofio mai dim ond un sesiwn oedd yn cynnwys cyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod ei hyfforddiant ar y cwrs Diploma Gwaith Cymdeithasol rhwng 1995 a 1997, sef sesiwn lle cafodd defnyddiwr gwasanaeth ei gyfweld gan y darlithydd. Digwyddodd y newid agwedd a ddilynodd am nifer o resymau, ond dyma'r rhai mwyaf blaenllaw: safbwynt athronyddol y llywodraethau Ceidwadol yn y 1980au a'r 1990au a'u pwyslais ar yr unigolyn fel defnyddiwr yn economi'r farchnad (Beresford,1994); awydd i godi safonau o ran darparu gwasanaeth pan oedd pryder eang am ansawdd y ddarpariaeth (Shennan,1998); ac agenda moderneiddio gofal cymdeithasol y llywodraeth Lafur Newydd a etholwyd ym 1997 (Molyneux ac Irvine, 2004).

Ym 1994, cyhoeddodd y Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol adroddiad (Beresford, 1994) a gafodd ddylanwad mawr iawn ar gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol. Ffrwyth ymarfer ymgynghorol yn cynnwys cynhadledd ymgynghori i grwpiau defnyddwyr gwasanaeth oedd yr adroddiad. Dadleuodd yr adroddiad o blaid 'systematic, coherent and comprehensive approach' i gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth (Beresford, 1994: 7). Lluniodd restr o amcanion, yn cynnwys gwneud amgylcheddau addysgol yn gwbl hygyrch a chydnabod bod safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn gyfwerth â safbwynt arbenigwyr eraill.

Arweiniodd sefydlu'r pedwar Cyngor Gofal yn y DU yn dilyn y Ddeddf Safonau Gofal (2000) at gyfarwyddyd newydd oedd yn gofyn bod darparwyr addysg gwaith cymdeithasol yn creu partneriaethau gyda defnyddwyr a gofalwyr yn ogystal â gydag asiantaethau gwaith cymdeithasol (Adran Iechyd, 2000).

Daeth newid mawr i gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at raglenni gradd yn sgil dyfodiad y radd gwaith cymdeithasol newydd yn Lloegr (yn 2004) ac yng Nghymru (yn 2005). Erbyn hynny, roedd y datblygiad deddfwriaethol a phroffesiynol wedi symud ymlaen cryn dipyn ac roedd yn ofynnol gan y llywodraeth i sefydliadau addysg uwch gynnwys defnyddwyr gwasanaeth fel 'budd-ddeiliaid' yn y gwaith o lunio a darparu'r radd newydd (Levin, 2004:8). Darganfu astudiaeth arall yn 2007 bod cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at raglenni gradd gwaith cymdeithasol yn amrywio ar draws Lloegr (Branfield et al., 2007). Un o'r diffygion a nodwyd gan Beresford et al (2007) oedd y ffaith bod academyddion yn rhoi llai o werth ar wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Mewn adolygiad o'r llenyddiaeth ar gyfraniad pobl nad ydynt yn academyddion gwaith cymdeithasol at asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol, mae Crisp et al.(2006) yn nodi bod cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y gwaith o asesu yn rhywbeth sy'n unigryw i Brydain ac sy'n annog adfyfyrio beirniadol ar y goblygiadau.

## Beirniadaeth am y mudiad/am gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth

Cafwyd beirniadaeth am y cysyniad o ddefnyddiwr gwasanaeth. Nododd Stickley (2006) fod y term yn cyffredinoli ac yn dadbersonoli. Mae ymchwilwyr wedi trafod y problemau sydd ynghlwm â defnyddio'r term hwn (Beresford, 2001; Forbes a Sashidharan,1997). Yn ddoeth iawn, mae Beresford (2003) yn awgrymu y dylem ystyried cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth yn feirniadol ac yn ofalus a bod yn ddrwgdybus o 'monolithic approach' i gyfraniad defnyddwyr. Mae labelu grwpiau o bobl fel rheol yn broblemus oherwydd nad yw'r labeli yn gallu cwmpasu amrywiaeth hunaniaeth pobl a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Defnyddir y term defnyddiwr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol heb gyfeirio rhyw lawer at unrhyw ddamcaniaethau cymdeithasegol yn ymwneud â grym (Masterson ac Owen, 2006) ac ymddengys yn gynyddol ei fod yn disgrifio pobl sy'n ymwneud â'r mudiad defnyddwyr gwasanaeth - fel rheol dim ond y bobl hyn sy'n cyfeirio at eu hunain fel defnyddwyr gwasanaeth. Er ein bod ninnau hefyd yn teimlo'n anghyffyrddus gyda defnyddio'r term defnyddiwr gwasanaeth yn ddiwahân, nid ydym am awgrymu term amgen gan y byddai hynny hefyd yn debygol o achosi dadl. Yn hytrach, rydym yn awyddus i annog adfyfyrio beirniadol ar yr arferion rydym yn gysylltiedig â hwy, er mwyn ystyried y wleidyddiaeth sydd yn eu hamgylchynu. Byddwn felly yn defnyddio'r term defnyddiwr gwasanaeth, er gwaethaf y ffaith nad ydym yn gyffyrddus â'r term.

## Gwybodaeth, dilysrwydd a grym

Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae grwpiau o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu a chorfforol wedi bod yn cymryd rhan yn y frwydr i roi ystyr newydd i wybodaeth, dilysrwydd a grym ac maent wedi cwestiynu'r syniad o beth yw arbenigedd. Mae gwybodaeth yn ganolog i'r drafodaeth am gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr at addysg a hyfforddiant. Mae'r materion pwysicaf i fudiad y defnyddwyr gwasanaeth yn cylchdroi o amgylch beth yw gwybodaeth a phwy sy'n meddu ar y wybodaeth orau. Mae hyn wedi arwain at fantra mudiad y defnyddwyr gwasanaeth 'y defnyddiwr sy'n gwybod orau' a datblygiad y syniad newydd a chynyddol boblogaidd bod gwybodaeth defnyddwyr gwasanaeth yn fath newydd o wybodaeth 'arbenigol' (Cole, 2007). Y safbwynt a fabwysiadir yma gan y mudiad yw bod angen cydnabod bod y wybodaeth y mae'r defnyddiwr gwasanaeth/gofalwr wedi ei chael o ganlyniad i'w brofiadau yn gyfwerth ag unrhyw wybodaeth y mae gweithiwr cymdeithasol proffesiynol neu ymarferwr meddygol wedi ei chael o ganlyniad i'w hyfforddiant a'i ymarfer.Mae'n rhaid pwysleisio eto nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn gasgliad o bobl unffurf (Beresford, 2001) ac nid yw pob defnyddiwr gwasanaeth, o bell ffordd, yn cyd-fynd â'r safbwynt hwn. Fodd bynnag, mae safbwynt o'r fath wedi dod yn ddylanwadol iawn ymysg rhai gweithredwyr anabledd ac mae grwpiau defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl yn arbennig yn aml yn cyd-fynd â'r safbwynt (James, 2007). Mae'r safbwynt 'y defnyddiwr sy'n gwybod orau' yn golygu bod defnyddwyr gwasanaeth yn hawlio rhyw fath o statws meistr, sef y statws y mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y maes wedi ei hawlio iddynt eu hunain ers amser maith, ac sydd wedi bod mor ormesol i ddefnyddwyr gwasanaeth.Mae hyn yn peri problem fawr, yn un peth oherwydd ni ellir cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth fel grŵp unffurf.

Pan fo mudiad y defnyddwyr gwasanaeth yn mynnu bod gwybodaeth lleygwyr yn gyfwerth â'r arbenigedd a geir trwy addysg, mae'n rhoi gweithwyr proffesiynol y maes mewn sefyllfa ryfedd iawn. Ar yr un pryd ag yr honnir bod defnyddwyr gwasanaeth yn'arbenigwyr trwy brofiad', mae llawer o fentrau yn hybu 'ymarfer ar sail tystiolaeth', megis cyfres 'Excellence Knowledge Review' y Sefydliad Gofal Cymdeithasol, ynglŷn â'r ffyrdd gorau o addysgu myfyrwyr ar y cyrsiau gradd gwaith cymdeithasol newydd. Ond er mwyn cyfrannu at hyn i unrhyw raddau sylweddol, mae'n rhaid meddu ar wybodaeth arbenigol. Mae arfer ar sail ymarfer, menter y mae Llafur Newydd wedi ymrwymo iddi'n llawn, felly yn gwbl groes i'r ethos fod gwybodaeth yn unol â phrofiad sydd ynghlwm â chyfraniad defnyddwyr gwasanaeth.

Gwnaeth Glasby a Beresford (2006) gyfraniad call iawn at y ddadl hon trwy feirniadu'r cysyniad o 'ymarfer ar sail tystiolaeth' a dangos bod mwy o bwys yn cael ei roi yn aml ar rai mathau o 'dystiolaeth' na mathau eraill o 'dystiolaeth'. Maent yn dadlau o blaid rhoi pwyslais ar 'knowledge-based practice', 'recognizing that the practice wisdom of health and social care practitioners and the lived experience of service users can be just as valid a way of knowing the world as formal research' (Glasby and Beresford, 2006: 268).

Mewn rhai ffyrdd, gellir dadlau bod rhoi'r un gwerth ar wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth gweithwyr proffesiynol yn safbwynt ôl-fodernaidd, gan fod gwybodaeth arbenigol sydd wedi ei ddeillio'n systematig yn cael yr un gwerth â dewisiadau unigol (a hyd yn oed rhagfarnau) defnyddwyr gwasanaeth.Gallai hyn fod yn fanteisiol dan rai amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y byddai'n rhaid rhoi cymaint o goel ar nifer fawr yr honiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl eu bod wedi cael pyliau o anghofio o ganlyniad i ECT ag y rhoddir ar osodiadau gan ymarferwyr iechyd meddwl sy'n mynnu nad yw hynny'n digwydd.

Mae'r trosolwg hwn yn codi cwestiynau nad oes atebion clir iddynt ar hyn o bryd. Yn gyntaf, pa mor gynrychioladol yw'r defnyddwyr gwasanaeth a'r defnyddwyr sy'n cyfrannu at addysg gwaith cymdeithasol, o ystyried amrywiaeth y boblogaeth darged a'r broblem o ba enw i roi arnynt? Yn ail, beth yn union yw statws y wybodaeth a'r profiad y maent yn ei gyfrannu at addysgu a dysgu? Yn drydydd, sut mae sefydliadeiddio'r 'mudiad' yn dylanwadu ar y cyfraniad, ac a oes egwyddorion democrataidd yn rhan o hynny? Gyda'i gilydd, mae'r cwestiynau hyn yn arwydd bod diffyg eglurder sylfaenol ynglŷn â'r sail dros gael cyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr at addysg gwaith cymdeithasol.

Yng Nghymru, cyhoeddodd Cyngor Gofal Cymru reolau i gymeradwyo cyrsiau gwaith cymdeithasol yn 2003, gan nodi y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y radd gwaith cymdeithasol (LlCG, 2003). Y syniad a ysgogodd ehangu cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol oedd y rhesymeg bod cynnwys defnyddwyr, eisoes ar waith mewn sefyllfaoedd gofal, yn gyfystyr â chynnwys buddiannau budd-ddeiliaid yn gynharach yn y broses wrth i weithwyr cymdeithasol gael eu hyfforddi, sef adeg pan ystyrir eu bod yn debygol o fod yn fwy agored i syniadau newydd (Stevens a Tanner, 2006). Yn 2007, cyhoeddodd Cyngor Gofal Cymru ei fwriad i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a chyflogwyr ym mhroses sicrhau ansawdd graddau gwaith cymdeithasol a lansiwyd project peilot yn fuan wedyn.

Yn y sefydliad lle gwnaed y gwaith maes hwn, dechreuwyd ar y gwaith o gynllunio gradd gwaith cymdeithasol yn 2003 gyda'r nod o gyflwyno'r radd newydd yn 2005. Rhoddwyd sylw manwl i'r 'amcanion cyffredin' (SCIE, 2007). Gosododd 'strategaeth cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth' y sefydliad y patrwm ar gyfer cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth ar sawl lefel. Byddai hyn yn cynnwys cymryd rhan yn y broses o ddethol ac asesu myfyrwyr ac aelodaeth o bwyllgorau a grwpiau partneriaeth strategol, megis grŵp rheoli'r radd, y gweithgor dysgu ymarfer a'r panel asesu ymarfer. Hyd yma, mae aelodau o'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, yn unol â'r cynllun, wedi cyfrannu at ddethol ac asesu myfyrwyr ac at bwyllgorau, yn ogystal â rhoi nifer o gyflwyniadau ar bynciau megis cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at sefydliadau gofal cymdeithasol ac amrywiol gyfraniadau at y modiwl dysgu ymarfer sy'n paratoi myfyrwyr at eu lleoliadau. Mae gan y grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y sefydliad gydlynydd rhan-amser. Roedd y gyllideb yn cynnwys grant gan Gyngor Gofal Cymru, ynghyd â thaliad ychwanegol bychan yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr. Rhoddwyd yr arian i dalu am gostau'r cydlynydd ac am unrhyw gostau teithio ac am gostau cyfranogiad a chostau gofal ychwanegol. Ond nid yw'r cyllid yn ddigonol i dalu am hyn oll ac mae'r sefydliad yn rhoi cymhorthdal i'r grŵp.

Nid yw'r swyddogaeth addysgol sydd gan ddefnyddwyr a gofalwyr mewn rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol erbyn hyn wedi bod yn destun trafodaeth feirniadol eang, er bod nifer cynyddol o ddisgrifiadau o gynnwys cyfraniad gan ddefnyddwyr mewn amrywiol gyrsiau, yn enwedig cyrsiau gwaith cymdeithasol.

## Methodoleg

Dwy flynedd ar ôl i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddechrau cyfrannu at y radd gwaith cymdeithasol yn y sefydliad, aethom ati i werthuso cyfraniad y grŵp defnyddwyr a gofalwyr. Roeddem eisiau gwybod pa mor gynrychioliadol o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yr ardal oedd y grŵp; a oedd yn cynnwys aelodau a fyddai efallai'n anghymwys i gymryd rhan mewn sefydliadau eraill (e.e. ceiswyr lloches, troseddwyr, camddefnyddwyr sylweddau neu bobl a oedd wedi bod yn destun trefn amddiffyn plant) ac ansawdd yr ymwneud rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Ymysg themâu eraill, roeddem hefyd eisiau darganfod beth oedd aelodau'r grŵp a'r myfyrwyr yn ei gredu oedd y grŵp yn ei gyfrannu at y rhaglen gwaith cymdeithasol, eu barn hwy am eu swyddogaeth ac a allent gyfrannu mwy nac maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Dull ansoddol a ddefnyddiwyd yn bennaf fel methodoleg, sgwrs gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Roeddem yn dilyn trefn cyfweliad ansoddol lled-strwythuredig a bu i fwyafrif y cyfweliadau bara tuag awr ar y themâu uchod.

Roedd strwythur y cyfweliadau'n amrywio rhyw fymryn rhwng cyfranogwyr unigol gan ein bod yn dymuno cael ein harwain gan eu hatebion a rhoi cyfle iddynt ateb ein cwestiynau yn y ffordd fwyaf rhydd posib. Gwnaethom holi'r cyfranogwyr am eu dealltwriaeth o'r term defnyddiwr gwasanaeth. Gofynnwyd i'r myfyrwyr gwaith cymdeithasol am eu canfyddiad o gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol yn gyffredinol ac at y cwrs yn eu sefydliad hwy. Gofynnwyd i aelodau'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am y cyfraniad hwn, eu rhesymau dros fod yn rhan o'r grŵp a'u cyfranogiad yn

y mudiad defnyddwyr gwasanaeth ehangach. Ar ôl trafod y pethau sylfaenol hyn, roedd y cyfranogwyr fel rheol yn siarad yn rhydd iawn ac yn arwain y sgwrs. Roedd y themâu a drafodwyd yn y cyfweliadau yn canolbwyntio'n gyson ar gynrychiolaeth, cyfranogiad, dysgu unigol trwy brofiad, hyfforddiant addysgol a phroffesiynoldeb.

Detholwyd y sampl trwy ofyn i bob myfyriwr gwaith cymdeithasol oedd wedi cofrestru yn y sefydliad petaent yn dymuno cymryd rhan mewn ymchwil ar gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol. Oherwydd pwysau gwaith a'r ffaith bod llawer o fyfyrwyr i ffwrdd ar leoliad, dim ond chwe myfyriwr wirfoddolodd, felly dyma'r chwe myfyriwr sydd yn ein sampl o fyfyrwyr. Roedd y myfyrwyr hyn yn cynnwys myfyrwyr ar gamau gwahanol yn y rhaglen gwaith cymdeithasol, yn ogystal â myfyriwr oedd ar fin cymhwyso ar ôl dilyn yr hen lwybr Diploma Gwaith Cymdeithasol. Roedd tri o'r myfyrwyr yn wrywaidd a thair yn fenywaidd. Roedd y sampl yn cynnwys un myfyriwr canol oed, dau fyfyriwr oedd yn siarad Cymraeg fel eu dewis iaith a myfyriwr o leiafrif ethnig oedd yn byw mewn cytref drefol y tu allan i Gymru cyn dod i astudio yn y sefydliad hwn. Roedd y sampl felly yn un amrywiol iawn ac felly nid oeddem yn teimlo bod rhaid i ni chwilio am ragor o wirfoddolwyr. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda chwe aelod o'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Chwe unigolyn a wirfoddolodd ar ôl i'r ymchwilwyr holi'r grŵp oedd y rhain hefyd.

Dim ond gwybodaeth gyfyngedig a gyflwynir yma am nodweddion aelodau'r grŵp a gyfwelwyd, er mwyn diogelu eu cyfrinachedd, gan y gellir eu hadnabod yn hawdd mewn cymuned Gymreig wledig fechan. Roedd aelodau'r grŵp a gyfwelwyd yn cynnwys dynion a merched ac roeddent i gyd yn ganol oed.Roedd gan dri o'r rhai a gyfwelwyd gefndir proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.Roedd dau o aelodau'r grŵp a gyfwelwyd yn disgrifio eu hunain fel 'gofalwyr cyflogedig', h.y. nid oeddent yn ddefnyddwyr gwasanaeth eu hunain ac nid oeddent ychwaith yn bobl oedd yn rhoi gofal di-dâl i berthnasau oedd yn ddefnyddwyr gwasanaeth. Roeddem yn ymwybodol bod rhai o aelodau eraill y grŵp yn credu ei fod yn anaddas i 'ofalwyr cyflogedig' fod yn aelodau o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, ond mae'r mater (pwysig) hwnnw y tu hwnt i gwmpas y papur hwn.

Felly roedd gennym sampl o 12 cyfranogwr i gyd. Roedd y ffaith bod y sampl yn fychan yn ein galluogi i gynnal cyfweliadau manwl a'u trawsgrifio'n llawn a'u dadansoddi. Roedd yn arwyddocaol bod yr un themâu'n codi yn y cyfweliadau, codwyd materion penodol gan nifer o gyfranogwyr heb i'r cyfwelydd sôn amdanynt ac roedd llawer o'r themâu a'r materion hyn yn ategu'r hyn a welwyd mewn astudiaethau eraill a gyhoeddwyd ar gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr at hyfforddi ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Cafwyd hefyd nifer o wahaniaethau diddorol rhwng y data o'r astudiaeth hon a'r data o astudiaethau eraill, ond nid fel rheol o ran y materion oedd yn cael eu hystyried yn bwysig. Felly, er gwaethaf y cyfyngiadau diarhebol o gyffredinoli ar sail data sy'n deillio o samplau bychan, credwn fod gwerth yn y data sy'n deillio o'n sampl ni.

Roedd y cyfwelydd yn aelod o staff ymchwil y sefydliad ond nid oedd yn gysylltiedig â'r cwrs gwaith cymdeithasol. Rhag bod un o'r cyfranogwyr wedi gweld y cyfwelydd yn y sefydliad, roedd y cyfwelydd yn egluro nad oedd yn aelod o'r staff addysgu nac yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â'r cwrs gwaith cymdeithasol ac roedd yn rhoi disgrifiad

byr o'i dyletswyddau yn ei swydd a'i diddordebau ymchwil. Eglurwyd i'r cyfranogwyr i gyd fod y cyfweliadau'n gyfrinachol, y byddai'r cyfwelydd yn eu trawsgrifio ac na fyddai unrhyw aelod arall o staff y sefydliad yn gwybod pwy gafodd ei gyfweld ac mai dim ond awduron y papur hwn fyddai'n cael gweld y trawsgrifiadau.[1]

Cafodd y cyfranogwyr i gyd ddisgrifiad ysgrifenedig o'r ymchwil arfaethedig a gwnaethant gydsynio'n ysgrifenedig i gymryd rhan cyn iddynt gael eu cyfweld.Dywedwyd wrthynt y gallent dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Cyn dechrau'r ymchwil, cafodd yr astudiaeth gymeradwyaeth foesegol gan y sefydliad dan sylw.

## Dadansoddiad a thrafodaeth am y canfyddiadau

**Darllenwyd pob trawsysgrif o'r cyfweliadau yn annibynnol gan dri awdur y papur hwn gyda phob awdur yn adnabod themâu cyffredin o fewn y trawsgrifiadau. Dilynwyd y broses hon yn ogystal gan aelod hŷn o'r adran a ddarllenodd y trawsgrifiadau ar gyfer dilysu'r broses o ddadansoddi'r data.**

Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu nad yw pobl sy'n derbyn gwasanaethau gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn hoffi'r term defnyddiwr gwasanaeth, mae'n well ganddynt dermau traddodiadol megis "claf" neu "gleient" (Heffernan, 2006).Nododd dau aelod o'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr nad oeddent yn hoffi'r term – y naill oherwydd ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei eithrio oherwydd ei fod yn ofalwr yn hytrach na'n ddefnyddiwr gwasanaeth a'r llall oherwydd nad oedd yn hoffi cael ei alw'n ddefnyddiwr (cyfeiriodd at bobl oedd yn "defnyddio" pobl eraill).[2]

Nid oedd unrhyw un o'r myfyrwyr gwaith cymdeithasol a gyfwelwyd yn hoffi'r term defnyddiwr gwasanaeth: "Rwy'n ei gasáu"; "mae'n oeraidd"; "dydy 'defnyddiwr' ddim yn beth neis". Dywedodd un myfyriwr ei fod wedi clywed gweithwyr cymdeithasol yn ei ddefnyddio fel term difrïol pan oedd ar ei leoliad ymarfer. Roedd yn well ganddo ddefnyddio'r term "cleient", gan wneud cyffelybiaeth rhwng gwaith pensaer a'i gleient, nododd y byddai'n gallu ymateb i'w gleientiaid yn y dyfodol fel rhywun proffesiynol ac "adeiladu" gwasanaeth iddynt sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion.

Roedd pob un o'r myfyrwyr a gyfwelwyd yn credu y dylid cynnwys defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr mewn addysg gwaith cymdeithasol. Roedd y sylwadau'n cynnwys: "mae'n gwneud synnwyr i glywed eu barn ar beth sy'n gwneud gweithiwr cymdeithasol da a gwael" ac "mae'n hanfodol o safbwynt moesol ac o safbwynt ymarferol". Dywedodd y mwyafrif ohonynt y dylai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gael cyfrannu mwy. Dywedodd tri myfyriwr yn bendant iawn y dylai defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus gael eu cynnwys yn addysg a hyfforddiant y gweithlu bob amser, ac ymhelaethodd un myfyriwr ar y syniad hwn o hyfforddi unrhyw un "mewn unrhyw ddiwydiant lle mae disgwyl i weithwyr sy'n cael eu talu gan arian cyhoeddus ddelio â phobl". Er bod dau fyfyriwr wedi dweud bod bron iawn pob myfyriwr gwaith cymdeithasol

---

1 Mae gan y cyfwelydd brofiad hir ac anfoddhaol o ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, ond ni hysbysodd y rhai a gyfwelwyd am hynny.

2 Tridiau cyn i ni gyflwyno'r papur, cawsom wybod gan aelod o'r grŵp eu bod wedi ailenwi eu hunain yn "gleientiaid cymunedol" gan eu bod yn casáu'r term defnyddiwr gwasanaeth cymaint.

yn cael cysylltiad helaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth trwy waith cyflogedig neu waith gwirfoddol cyn dechrau ar eu cyrsiau, ac nad yw cynnwys defnyddwyr gwasanaeth/ gofalwyr ar y cwrs naill ai yma nac acw i fyfyrwyr o'r fath, roedd y profiad yn hanfodol i leiafrif y myfyrwyr nad oedd wedi cael y cysylltiad hwnnw'n flaenorol.

Nododd y myfyrwyr droeon fod defnyddwyr gwasanaeth "yn arbenigwyr am eu sefyllfa arbennig nhw". Roedd yn ddiddorol bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn tueddu i gymryd yn ganiataol na fyddai myfyrwyr yn deall hynny - roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn credu mai eu cyfraniad mwyaf at addysg gwaith cymdeithasol oedd argyhoeddi myfyrwyr bod defnyddwyr gwasanaeth yn arbenigwyr amdanynt eu hunain. Dywedodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr y gallai myfyrwyr roi mwy o bwys ar wybodaeth "coleg" neu wybodaeth "llyfr". Dywedodd un aelod o'r grŵp defnyddwyr/ gofalwyr "mae gennym gyfle unigryw i roi pobl yn y gweithle sy'n deall yn well beth sydd ochr draw i'r drws... eu rhoi nhw yna efo meddwl agored, fel nad ydyn nhw'n mynd yno efo rhagdybiaethau... efallai oherwydd y stwff maen nhw wedi ei ddarllen o'r blaen maen nhw'n meddwl eu bod yn gwybod sut mae'n gweithio neu efallai eu bod yn meddwl bod pwy bynnag ysgrifennodd y llyfr yn byw dan fwced". Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth mai'r peth gorau am gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn addysg gwaith cymdeithasol yw ei fod yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddweud wrth y myfyrwyr "caewch eich cegau, gwrandewch arnon ni ac anghofiwch bob dim rydych wedi darllen yn eich llyfrau".

Roedd ein cyfranogwyr i gyd felly yn croesawu'r syniad o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn addysg gwaith cymdeithasol.Ond y tu hwnt i'r brwdfrydedd tuag at yr egwyddor, daw diffyg eglurder sylweddol i'r golwg.

Gallem ddisgrifio tri gwahanol fodel posib o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yng nghyd-destun addysgol addysg gwaith cymdeithasol. Mae un model yn cynnwys defnyddio defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr unigol sydd wedi cael addysg dda ac sy'n digwydd meddu ar gefndir darlithio neu ddysgu. Yn yr ail fodel, mae defnyddiwr neu ofalwr ac athro/athrawes yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r trydydd model yn cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr yn cyflawni swyddogaeth addysgol ar ei ben ei hun, yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r myfyrwyr er nad oes gan y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr gefndir dysgu na darlithio. Mae'r sesiynau a gyflwynwyd i fyfyrwyr gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y sefydliad hwn yng Nghymru wedi cadw at fodel un a dau, neu gyfuniad o'r ddau. Efallai bod hyn wedi cael ei ddylanwadu gan y ffaith fod mwyafrif aelodau grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr y sefydliad wedi cael addysg gymharol dda ac mae llawer ohonynt yn weithgar yn y mudiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ehangach.

Roedd aelodau'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn canmol yr hyfforddiant a ddarparwyd ar eu cyfer gan y sefydliad ac yn dweud eu bod yn mwynhau cyfrannu at y rhaglen gwaith cymdeithasol. Bu nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr a gyfwelwyd yn onest iawn gan ddweud eu bod wedi cael profiadau erchyll gyda gweithwyr cymdeithasol yn y gorffennol a'u bod eisiau cyfrannu at ddethol myfyrwyr gwaith cymdeithasol er mwyn rhannu'r wybodaeth oeddent wedi ei chael ac a oedd yn eu barn hwy yn werthfawr, gan fanteisio ar y cyfle i ddylanwadu ar addysg ac agwedd y

myfyrwyr. "ia, y ffaith mod i wedi cael profiadau gwael." Soniodd aelodau o'r grŵp oedd yn ofalwyr cyflogedig am brofiadau gwael gyda gweithwyr cymdeithasol hefyd. Roedd yn amlwg bod un o'r myfyrwyr wedi sylwi sut oedd profiadau o'r fath wedi dylanwadu ar y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr: "dw i'n cofio gofyn iddyn nhw am brofiadau positif efo gweithwyr cymdeithasol... roedd yn tueddu i fod yn negyddol... roedd yn teimlo fel petai lot o'r pethau oedden nhw'n sôn amdanyn nhw yn brofiadau negyddol…"

Dywedodd nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr nad oedd y sefydliad yn eu defnyddio i'w "llawn potensial"; bod eu cyfraniad yn parhau i fod yn "docynyddiaeth" ac y gallent "wneud mwy". Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt ba gyfraniad ychwanegol yr hoffent ei wneud at y rhaglen gwaith cymdeithasol, roedd mwyafrif aelodau'r grŵp yn aneglur ac amhenodol iawn; dim ond eu bod eisiau cyfrannu "mwy". Roedd dau aelod o'r grŵp yn eglur iawn am sut y gallai'r grŵp gyfrannu mwy, gan awgrymu y gallent roi darlithoedd ar fodiwlau a nodi sut y gallai'r sefydliad ddarparu hyfforddiant addas i alluogi defnyddwyr a gofalwyr i gyfrannu ar y lefel honno. Roedd gan y ddau aelod dan sylw gefndir proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac roeddent wedi cymryd rhan mewn hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn y gorffennol. Ar ôl pwyso arnynt, dywedodd ddau ddefnyddiwr gwasanaeth a gofalwr arall y gallent efallai roi rhai darlithoedd mewn modiwl. Ond wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen, gwnaethant ddechrau mynegi amheuon yn sydyn iawn, yn gyntaf ynglŷn ag "ansawdd" y darlithoedd y gallent eu rhoi ac yna dywedodd un ohonynt nad oedd yn gwybod beth oedd staff y sefydliad eisiau i'r myfyrwyr ei ddysgu.

Cyn hynny, roedd y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr wedi disgrifio eu cysylltiad gyda staff y sefydliad fel un cadarnhaol iawn. "rydych yn teimlo eich bod ar yr un donfedd â phawb arall. Fel defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr rydyn ni'n chwilio am yr un pethau â (staff y sefydliad)"; "un o'r pethau dw i'n gofyn i mi fy hun mewn cyfweliadau yw os buaswn yn gyffyrddus petai'r person yma yn dod i fy nhŷ... dw i yn fy lle yn aml iawn achos mae pobl eraill ar y panel yn dweud yr un peth mewn ffordd fwy rhesymegol".

Felly, rydym yn mentro dyfalu bod y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr yn mynegi ansicrwydd am eu swyddogaeth, ac roedd y staff yn fodlon rhoi pwys ar eu cyfraniad dim ond i'r graddau roedd yn cyd-fynd â'r hyn oedd y staff yn ei ddymuno beth bynnag. Er eu bod yn croesawu cysylltiad gyda'r myfyrwyr ac roeddent yn bendant yn awyddus i drosglwyddo eu profiad a'u gwybodaeth i geisio siapio gweithwyr cymdeithasol y dyfodol, roedd llawer ohonynt yn anghyfforddus pan awgrymwyd y gallent wneud gwaith addysgu ffurfiol. Crynhowyd yr ansicrwydd gan un aelod o'r grŵp pan ddywedodd: "Dw i'n mynd i bob dim… rŵan maen nhw eisiau i mi wneud pethau fel gweithdai. Fuaswn i ddim yn gwneud pethau fel 'na fy hun. Dw i wedi gwneud rhai gweithdai ond dydw i ddim yn licio os dydy pethau ddim yn mynd fy ffordd i. Os dydyn nhw ddim yn gwneud beth dw i'n ei ddweud, dw i'n mynd." O gymryd hyn allan o'i gyd-destun, gallai geiriau'r unigolyn awgrymu ei fod yn amharod i gydweithredu neu'n methu gweithio gyda phobl eraill. Ond o ystyried sylwadau dilynol yr unigolyn ynglŷn â'r anawsterau mae ei broblemau iechyd meddwl wedi achosi, mae'n ymddangos yn fwy tebygol ei fod yn mynegi pryder sylweddol ynglŷn â'i gyfraniad at addysg gwaith cymdeithasol.

Dywedodd dau fyfyriwr bod y cyflwyniadau oeddent wedi eu gweld gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn "ystrydebol" ac fel petaent wedi ei "ymarfer drosodd a

throsodd". "roedd gan y defnyddwyr gwasanaeth brofiad o fod yn rhan o'r cwrs gwaith cymdeithasol ac roedden nhw wedi dysgu math arbennig o iaith a mwy na thebyg wedi saernïo eu hiaith yn ofalus. Ond os ydych yn siarad gyda defnyddwyr gwasanaeth mewn amgylchedd buaswn yn ei alw'n fwy garw, dyna ydy o, mae'n fwy garw. Oherwydd eich bod yn gofyn cwestiynau ac yn trafod efo nhw, dydyn nhw ddim wedi cael cyfle i ymarfer yr araith ar eich cyfer". Dangosodd un aelod o'r grŵp defnyddwyr a gofalwyr ei fod yn ymwybodol bod hyn efallai'n digwydd: "dydw i ddim eisiau troi pobl yn robotiaid. Mae'n rhaid bod yn naturiol wrth siarad am eich profiad eich hun, dydy'n dda i ddim cyflwyno mewn ffordd lafurus".

Roedd llawer o aelodau'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn perthyn i grwpiau defnyddwyr a gofalwyr eraill ac yn weithgar yn y sector gwirfoddol yn gyffredinol – gallai hynny fod wedi cyfrannu at yr argraff o gyflwyniadau "ystrydebol" ac fel petaent wedi eu "hymarfer drosodd a throsodd".Ac efallai hefyd mai dyma pam sylwodd un myfyriwr :"yr un wynebau oeddech yn ei weld drwy'r amser felly roeddech yn clywed yr un straeon.... does yna ddim llawer o asiantaethau na phobl i ddewis... dydy hi ddim bob amser yn helpu gweld yr un wynebau".

Roedd dau fyfyriwr yn cofio bod y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr wedi gofyn cwestiynau mor "hir" a "chymhleth" yn y panel cyfweld bod aelod arall o'r panel wedi gorfod eu "cyfieithu" hwy. Nid oedd y myfyrwyr eraill yn cofio cyfraniad y defnyddwyr gwasanaeth neu'r gofalwyr at eu cyfweliad derbyn (er y byddent yn sicr wedi cyfrannu).

Sylw un myfyriwr oedd nad yw defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr bob amser yn ddeallusol gymwys i ymdrin â rhai meysydd addysgu arbenigol, ond nid enwodd hwy:"Dw i'n gallu gweld y gallai'r sefyllfa achosi gwrthdaro oherwydd efallai dydy'r defnyddwyr gwasanaeth ddim yn ddeallusol gymwys i allu gwneud y penderfyniadau yna", ond aeth ymlaen "dw i'n bendant yn meddwl y dylen nhw gael cyfrannu a dweud beth yw nodweddion a rhinweddau gweithiwr cymdeithasol da... efallai nad ydyn nhw'n gymwys i gyfrannu at hyfforddiant penodol, ond dylen nhw'n bendant gymryd rhan mewn sgiliau pobl mwy cyffredinol er enghraifft canfyddiadau, agweddau...". Awgrymodd myfyriwr arall y gellid defnyddio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gysylltu theori ag ymarfer, er enghraifft trwy ofyn am eu syniadau ar y gwaith damcaniaethol sy'n tanategu'r aseiniadau.

Yn unol â sylwadau a wnaed gan aelodau o grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eraill mewn astudiaethau eraill (Humphreys, 2005), siaradodd llawer o aelodau'r grŵp a gyfwelwyd am eu cyfraniad o ran y manteision personol - therapiwtig yn aml - iddynt hwy o gymryd rhan: "pwrpas fy mywyd"; "mae wedi fy nhynnu allan o'r pydew"; "mae'n cael gafael arnoch ac i ffwrdd â chi"; "profiad da i mi"; "amser i fi fy hun"; "cyfarfod oedolion… pobl o gefndiroedd gwahanol, mae'n ddiddorol iawn cael dod i adnabod nhw"; "roeddwn i angen cael mynd o'r tŷ, (roeddwn yn teimlo bod) mwy i fywyd na hyn"; "maen nhw wedi cael gwefr o beth maen nhw wedi bod yn ei wneud yn barod. Mae rhai wedi synnu eu bod wedi medru gwneud cymaint". "Nid oes gennych lawer o hunan-barch ar ôl i chi gael problemau iechyd meddwl."

Rhoddodd bob aelod esboniad oedd yn "therapiwtig" i ryw raddau am eu rhan yn y grŵp. Yn ddiddorol iawn, ni chrybwyllwyd y syniad fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth

a gofalwyr yr hawl i fod yn rhan o addysg gwaith cymdeithasol (Beresford, 1994; SCIE, 2007), er eu bod i gyd yn teimlo bod ganddynt ryw fath o gyfraniad defnyddiol i'w gynnig. Soniodd y myfyrwyr i gyd am y syniad o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael eu 'grymuso' trwy gyfrannu at addysg gwaith cymdeithasol. Ond roedd gan yr unig aelod o'r grŵp defnyddwyr a gofalwyr a grybwyllodd grymuso gefndir proffesiynol ym maes gwaith cymdeithasol. Credwn fod absenoldeb o ddefnydd iaith 'grymuso' ymysg y defnyddwyr a gofalwyr yn arwyddocaol, oherwydd bod defnyddwyr a gofalwyr yn bennaf yn meddwl am eu gwaith o safbwynt agwedd ac affaith yn hytrach nac o safbwynt sy'n agored yn ei wleidyddiaeth neu ei gydnabyddiaeth o anghydraddoldebau cymdeithasol.

Awgrymodd myfyriwr ac aelod o'r grŵp defnyddwyr a gofalwyr, yn annibynnol ar ei gilydd, y gellid gwahodd defnyddwyr a gofalwyr i sesiynau rheolaidd gyda choffi a bisgedi i gwrdd a thrafod â'r myfyrwyr "yn anffurfiol i rannu syniadau".Gallai hyn ei wneud yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd ar yr ymylon neu sy'n llai hyderus i gyfrannu at y cwrs gwaith cymdeithasol a gallai hefyd fod yn ffordd o gynnwys pobl ifanc, sydd fel rheol yn anodd eu denu i fentrau o'r fath."mae'n anodd iawn cael pobl i ymuno efo pwyllgorau... daeth fy merch (17 oed) unwaith ond roedd o mor ddiflas roedd hi'n gwrthod dod wedyn."

Mae pryder wedi ei fynegi am y ffaith nad yw rhai categorïau o bobl yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn grwpiau sy'n cyfrannu at raglenni gwaith cymdeithasol mewn prifysgolion yn y DU (http://research.shu.ac.uk/chsr/user-involvement/advisory_serviceuser.htm/). Nid yw'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y sefydliad hwn yng Nghymru'n gynrychioladol o'r gymuned gynyddol amrywiol sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau gwaith cymdeithasol, er bod y grŵp wedi hysbysu ei fodolaeth yn eang ac wedi gwahodd pobl i ymuno, beth bynnag eu cysylltiad â gwasanaethau gwaith cymdeithasol.Yn arbennig, nid oes digon o gynrychiolaeth i bobl ifanc, hen bobl na siaradwyr Cymraeg.

Adroddir yn eang am dangynrychiolaeth pobl ifanc a hen bobl mewn grwpiau tebyg eraill. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y ffaith bod tangynrychiolaeth o siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau o'r fath mewn rhannau o Gymru lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel eu dewis iaith. Mae'r rhaglen gwaith cymdeithasol yn y sefydliad hwn yn cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg a addysgir gan staff sy'n siarad Cymraeg. Er mai ychydig iawn o aelodau grwpiau defnyddwyr a gofalwyr yn yr ardaloedd hyn sy'n siarad Cymraeg, nid yw hyn yn golygu nad oes siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r gwasanaethau. Mae'r ardaloedd hyn dan anfantais gymdeithasol-economaidd ac mae llawer o bobl sy'n dod yn wreiddiol o'r ardaloedd hyn yn gwneud defnydd helaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r sefydliadau addysgol yn yr ardaloedd hyn yn ddwyieithog, yn cyflogi cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac yn annog staff eraill i ddysgu Cymraeg. Mae diffyg siaradwyr Cymraeg mewn grwpiau o'r fath yn achos chwilfrydedd a phryder i ni. Rydym yn amau y gallai adlewyrchu'r diffyg siaradwyr Cymraeg sy'n ymwneud â'r mudiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn ardaloedd o'r fath. Nid yw aelodau di-gymraeg o'r grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn yr ardal yn sylwi fel rheol bod siaradwyr Cymraeg wedi eu tangynrychioli yn y grwpiau.

Credwn fod tangynrychiolaeth o garfannau penodol yn y grŵp a astudiwyd (ac yn ôl pob tebyg grwpiau defnyddwyr a gofalwyr eraill hefyd) yn deillio o'r ffaith bod pobl yn dethol

eu hunain trwy wirfoddoli yn hytrach na thrwy ddulliau eithrio bwriadol.Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gwbl bod defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn y grŵp yn ceisio eithrio pobl benodol, ond rydym yn dyfalu y gallai pobl sy'n siarad Cymraeg fel eu dewis iaith ac sy'n dod o ddiwylliant gwahanol i ddiwylliant Lloegr deimlo'n ynysig mewn grŵp o'r fath. Rydym yn ymwybodol bod grwpiau defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl lleol yn ardaloedd Cymraeg Cymru hefyd yn cynnwys mwyafrif o Saeson sydd wedi mudo i Gymru, er bod llawer o siaradwyr Cymraeg sydd wedi eu geni a'u magu yn yr ardaloedd yn defnyddio'r gwasanaethau iechyd meddwl lleol. I ddefnyddio cysyniad Pierre Bourdieu o 'habitus' (Bourdieu, 1977), efallai nad yw siaradwyr Cymraeg yn credu bod grwpiau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn yr ardal yn rhywbeth i 'bobl fel ni'. Byddai hynny'n arwain atynt yn cael eu heithrio'n anfwriadol.

Eto gellid gofyn a oes angen i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n cymryd rhan mewn grwpiau defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr fod yn 'gynrychioliadol' yn yr ystyr o sampl tebygolrwydd o'r defnyddwyr/gofalwyr yn y gymuned leol.Yn hytrach na mynd ar ôl y ddadl y dylai defnyddwyr a gofalwyr yn y grwpiau hyn fod yn hollol gynrychioliadol yn yr ystyr hwnnw, efallai y dylem ganolbwyntio ar syniadau o hunaniaeth. A yw 'grŵp hunaniaeth' o ddefnyddwyr gwasanaeth (neu ofalwyr) yn bodoli ac, os felly, sut mae'r grŵp hwnnw'n creu hunaniaeth a swyddogaeth iddo'i hun nad yw'n cael ei 'roi' mewn unrhyw ystyr? Er bod cynrychiolaeth ddemocrataidd yn ffordd atebol o drefnu grym ac yn gyfrwng i'r di-rym gael mynegi eu hunain, gallai gwleidyddiaeth hunaniaeth droi'n gêm heb reolau.

Nid yw grwpiau a ellir eu disgrifio fel defnyddwyr gwasanaeth wedi eu hymyleiddio wedi eu cynnwys yng nghyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y sefydliad hwn ychwaith, sy'n wir hefyd mewn sefydliadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys ceiswyr lloches, perthnasau plant sydd yn y system amddiffyn plant; camddefnyddwyr sylweddau; troseddau, yn cynnwys rhai sy'n cam-drin. Rydym yn dyfalu na fyddai llawer o bobl felly, sydd efallai wedi cael profiadau anhapus a/neu drawmatig iawn gyda gweithwyr cymdeithasol ac sydd wedi arwain at gael eu hymyleiddio neu eu halltudio, eisiau cymryd unrhyw ran yn y gwaith o hyfforddi gweithwyr cymdeithasol. Eto efallai mai'r bobl hyn sydd eu hangen fwyaf, ac roedd y myfyrwyr a gyfwelwyd yn credu bod cynnwys y garfan hon o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn bwysig dros ben.

Roedd yr holl fyfyrwyr a gyfwelwyd yn gadarnhaol iawn am y posibilrwydd o gynnwys carfannau wedi eu hymyleiddio yn y grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr:"Dw i'n siŵr bod yna ddefnyddwyr gwasanaeth sydd efo cwynion"; "roedd y grŵp defnyddwyr gwasanaeth yn tueddu i gynnwys pobl oedd wedi eu geni efo problemau, pobl efo problemau corfforol, nid pobl efo problemau cymdeithasol"; "Dw i'n meddwl y buasai'n wych... fel myfyriwr gwaith cymdeithasol mae eich gwerthoedd yn cael eu herio o hyd"; "rydan ni angen siarad yn arbennig efo'r defnyddwyr gwasanaeth sydd heb lais fel arfer". Dywedodd y myfyrwyr na all gweithwyr cymdeithasol ddewis eu cleientiaid:"fel gweithiwr cymdeithasol, dydych chi ddim yn gwybod efo pwy fyddwch yn gweithio, dydych chi ddim yn dewis efo pwy fyddwch yn gweithio". Eto roedd dau o'r myfyrwyr yn cofio clywed myfyrwyr eraill na chymerodd ran yn yr astudiaeth yn dweud nad oeddent eisiau gweithio ym maes amddiffyn plant oherwydd na fyddent yn gallu gweithio gyda phobl oedd yn gallu gwneud niwed i blant.

Rydym hefyd yn gofyn a fyddai'r deinamig uchod o hunan-ddethol sydd mor amlwg yn ei gwneud yn anodd i garfannau a ystyrir yn aml fel carfannau nad ydynt yn haeddu cymryd unrhyw ran mewn grŵp defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.Y pwynt pwysig yma yw bod polisi cenedlaethol wedi ei weithredu ledled y wlad, wedi ei drefnu ar lefel leol trwy grwpiau bychan, ond eto nid yw deinamig grwpiau bychan sydd wedi dethol eu hunain wedi cael, nac yn cael, eu cymryd i ystyriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod, er ei bod yn bosib dyfalu'r ffactorau sydd efallai'n rhwystro carfannau arbennig rhag ymuno â grwpiau bach, y bydd llawer o rwystrau o'r fath yn parhau yn anhysbys.

Rydym yn rhannu pryderon rhai awduron eraill am syniadau am "ymarfer ar sail tystiolaeth", ei "wrthrychedd" honedig a'r ffordd y rhoddir mwy o bwys arno'n aml nac ar ffurfiau eraill ar wybodaeth. Eto nid ydym yn credu bod rhoi'r un pwys ar wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ateb, fel mae rhai gweithredwyr yn y mudiad defnyddwyr gwasanaeth yn ei awgrymu. Efallai bod y myfyrwyr a gynigiodd fod gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gyfraniadau pwysig i'w cynnig, ond efallai nad ydynt yn "ddeallusol" gymwys i drosglwyddo gwybodaeth am feysydd "arbenigol", yn aros yn y man canol rhwng ystyried defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr fel arbenigwyr "go iawn" a swyddogaeth y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr o gyfleu gwybodaeth anecdotaidd a phrofiadau personol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Caiff y syniad o ddefnyddio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn swyddogaeth addysgol ei hybu am resymau sy'n ymddangos yn rhai teilwng, ond mae'n arwyddocaol mai ar y proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n is eu statws y caiff ei wthio, megis gwaith cymdeithasol a nyrsio. Er bod myfyrwyr meddygol yn dod i gysylltiad â chleifion yn eu hyfforddiant erioed, mae hynny wedi digwydd mewn ffordd wahanol iawn. Yn draddodiadol, cyflwynwyd y cleifion fel "achosion clinigol" ac roedd gan y myfyrwyr "eu" cleifion hwy, ac roeddent yn "gofalu amdanynt". Nid oedd y cleifion yn cyflawni swyddogaeth addysgol, er y cydnabyddir bod y myfyrwyr yn dysgu gan y cleifion a bod cyfraniad y cleifion yn werthfawr ac yn hanfodol. Er bod addysg feddygol wedi symud oddi wrth y model hwn ac wedi rhoi pwyslais ar gysylltiad mwy cydradd rhwng myfyrwyr a chleifion, nid yw addysg feddygol wedi ymgorffori cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth yn yr un modd ag y mae addysg gwaith cymdeithasol wedi ei wneud. Erbyn hyn, y grwpiau mwyaf pwerus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw uwch reolwyr – nid ydym wedi clywed am gynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn hyfforddiant ac addysg y grŵp hwn hyd yn hyn.

Mynegwyd pryder bod polisïau Llafur Newydd wedi galw am gyfraniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn gweithredu diwygiadau neo-ryddfrydol yn y system lles (Baker et al., 2008; Forbes a Sashidharan, 1997; Harrison a Mort, 1998; Rhodes a Nocon, 1998). Mae swyddogaeth gweithiwr cymdeithasol yn wahanol iawn i'r hyn yr oedd 20 mlynedd yn ôl. Mae newidiadau yn y system lles yn golygu'n aml iawn nad yw'r gweithwyr cymdeithasol mwyaf dygn ac ymroddgar yn gallu gwneud llawer i gynorthwyo eu cleientiaid - ceir pryder bod ymarferwyr wedi eu dadbroffesiynoli, eu dadrymuso neu hyd yn oed eu "hôl-broffesiynoli" (Randall a Kindiak, 2008), a mynegwyd pryder hefyd am yr elfen sylweddol o oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol erbyn hyn (Butler a Drakeford, 2001). Mae hyn yn achosi mwy o ddadrymuso ymysg defnyddwyr gwasanaeth gan nad yw gweithwyr cymdeithasol yn gallu ymdrin â'u hanghenion, gan fod eu swyddogaeth

wedi ei droi'n un o gynnal asesiadau safonol a gweithredu protocolau ymyrryd. Er gwaethaf y syniadau cadarnhaol am broffesiynoli gwaith cymdeithasol a chynyddu ei fri, yn y DU o leiaf, nid oes unrhyw arwydd eto bod ei statws yn newid. Mae cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at ddethol ac addysgu'r myfyrwyr yn atgyfnerthu'r syniad bod prif nodweddion gwaith cymdeithasol yn ymwneud ag agwedd ac ymddygiad gweithwyr cymdeithasol unigol. Hefyd mae'r canolbwyntio hyn ar nodweddion unigol yn tynnu sylw oddi ar faterion yn ymwneud â grym a dinasyddiaeth, sy'n allweddol os yw ymarferwyr a defnyddwyr am lwyddo i greu newid go iawn ym mywydau defnyddwyr.

Cwestiwn cysylltiedig yw a yw arbenigedd defnyddwyr gwasanaeth a dyfodiad yr hyn a elwir yn "ddefnyddiwr gwasanaeth proffesiynol" yn creu rhyw fath o elitaeth ym maes cyfranogiad defnyddwyr. Yn hyn o beth, gallai defnyddwyr golli eu persbectif fel pobl gyffredin a'u hygrededd fel defnyddwyr. Gallai hefyd arwain at eithrio defnyddwyr eraill ac at eu gorthrymu (Stevens a Tanner, 2006).

## Casgliad

Mae'n amlwg bod llawer o ewyllys da a brwdfrydedd gan bawb tuag at y syniad o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr mewn addysg gwaith cymdeithasol. Ond eto, ceir arwyddion bod llawer o bobl yn ansicr am swyddogaeth defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y cyd-destun hwn. Efallai bod yr ansicrwydd hwn yn rhannol egluro pam fod y defnyddwyr a'r gofalwyr a gyfwelwyd yn yr astudiaeth hon, fel eraill mewn astudiaethau tebyg, yn siarad mor aml am eu cymhelliant i gyfrannu at addysg gwaith cymdeithasol o ran y manteision personol - therapiwtig yn aml - maent yn eu cael o gymryd rhan.

Ar hyn o bryd, mae'r modd y mae rhai sefydliadau addysgol yn defnyddio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn rôl addysgol yn codi cwestiynau sy'n ymwneud â phroffesiynoldeb a chyfleoedd cyfartal. Os yw defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn gallu gwneud gwaith darlithwyr, dylem felly ofyn beth yw swyddogaeth darlithwyr ac academyddion mewn addysg gwaith cymdeithasol? Ar ben hynny, mae'r polisi o ddefnyddio defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn swyddogaeth addysgol yn codi cwestiynau am bolisïau cyflogaeth cyfle cyfartal, os yw'r cymwysterau a'r profiad addas ar gyfer swyddogaeth felly'n cael eu hystyried yn amherthnasol erbyn hyn.

Dywed rhai bod grwpiau defnyddwyr gwasanaeth yn gallu bod yn annemocrataidd, yn hierarchaidd, yn ormesol ac yn anghynrychioladol (Baker et al., 2008). Nid oes unrhyw reswm pam y dylai problemau o'r fath fod yn perthyn i grwpiau defnyddwyr fel y cyfryw - rydym yn amau ei fod yn ganlyniad i ddeinamig grwpiau bychan pan fydd amcanion y grŵp yn aneglur. Eto o leiaf ar lefel y llywodraeth, ni chydnabuwyd hyn o gwbl, er gwaethaf yr effaith sylweddol y caiff ar weithredu polisi cenedlaethol o gynnwys defnyddwyr gwasanaeth.

Mae cyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at addysg gwaith cymdeithasol wedi datblygu llawer dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n llawn problemau oherwydd nad oes canolbwynt clir iddo na phwrpas cryf a gwleidyddol ymwybodol ymysg defnyddwyr, gofalwyr na myfyrwyr.Mae'r canlyniadau cychwynnol hyn ar gyfraniad defnyddwyr gwasanaeth at y rhaglen radd gwaith cymdeithasol arbennig hon yn amlygu llawer o broblemau tebyg a pharadocsau cysylltiedig, ond maent hefyd yn cynnig cyfle

am drafodaeth bellach a ffyrdd mwy cydweithredol o weithio a allai fynd i'r afael ag agweddau cymdeithasol-wleidyddol y sefyllfa, nad ydynt wedi cael sylw digonol hyd yma.[3]

## Diolchiadau

Hoffai'r awduron ddiolch i'r defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr am roi o'u hamser i gyfrannu eu syniadau a'u profiadau at yr astudiaeth.

## Llyfryddiaeth

Baker, Sally; Brown, Brian a Gwilym, Hefin (2008), 'The Rise of the Service User', *Soundings*, 40: 18-28.

Beresford, Peter (1994),*Changing the Culture: Involving Service Users in Social Work Education*, Central Council for Education and Training in Social Work Paper 32.2 (Caergrawnt: Black Bear Press).

Beresford, Peter (2001), 'Service Users, Social Policy and the Future of Welfare', *Critical Social Policy*, 21(4): 494-512.

Beresford, Peter. (2003), 'User Involvement in Research: Connecting Lives, Experience and Theory' papur a gyflwynwyd yn y gynhadledd Making Research Count, Prifysgol Warwick. http://www.2warwick.ac.uk/fac/soc/shss/mrc/userinvolvement/beresford/ (Cyrchwyd Rhagfyr 2008)

Beresford, Peter., Branfield, Fran., Taylor, Jennifer., Brennan, Maggie., Sartori, Anna., Lalani, Munir ac Wise, Grace (2006), 'Working Together for Better Social Work Education', *Social Work Education*, 25(4): 326-331.

Bourdieu, Pierre (1977),*Outline of a Theory of Practice* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Branfield, Fran., Beresford, Peter a Levin, Enid (2007), 'Common Aims: A Strategy to Support Service User Involvement in Social Work Education', Social Care Institute for Excellence, *Social Work Education Position Paper, 07*. Butler, Ian a Drakeford, Mark (2001) 'Which Blair Project: Communitarianism, Social Authoritarianism and Social Work', *Journal of Social Work*, 1(1): 7-19.

Cole, A. (2007), 'The Client Knows Best' *The Guardian* http://www.guardian.co.uk/society/2007/jun/07/publicservicesawards4 (Cyrchwyd Hydref 2007)

Crisp, Beth, R., Lister, Pam Green a Dutton, Kathryn (2006), 'Not Just Social Work Academics: The Involvement of Others in the Assessment of Social Work Students', *Social Work Education*, 25(7): 723-734.

Davies, Elaine (1994),*'They All Speak English Anyway – The Welsh Language and Anti-Oppressive Practice'*(CCETSW, Caerdydd).

[3] Er bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol yng Nghymru, mae 80% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn yr ardal lle cynhaliwyd yr astudiaeth hon. Mae ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ymarfer gwrthwahaniaethol yng Nghymru (Davies, 1994).

Department of Health (2000),*A Quality Strategy for Social Care* (Llundain: Department of Health).

Forbes, Joan a Sashidharan, Sashi (1997), 'User Involvement in Services – Incorporation or Challenge?', *British Journal of Social Work*, 27: 481-498.

Glasby, Jon and Beresford, Peter (2006), 'Who Knows Best? Evidence-based Practice and the Service User Contribution', *Critical Social Policy*, 26(1): 268-284.

Harrison, Stephen a Mort, Maggie (1998), 'Which Champions, Which People? Public and User Involvement in Health Care as a Technology of Legitimation', *Social Policy & Administration*, 32(1): 60-70.

Heffernan, Kristin (2006), 'Social Work, New Public Management and the Language of the 'Service User'', *British Journal of Social Work*, 36: 139-47.

Humphreys, Catherine (2005), 'Service User Involvement in Social Work Education: A Case Example', *Social Work Education*, 24(7): 797-803.

James, Adam (2007), 'Expert Advice?', *Mental Health Today*, 2 Mai.

Levin, Enid (2004), Involving Service Users and Carers in Social Work Education, *Social Care Institute for Excellence Resource Guide*, No 2.

Rhodes, Penny a Nocon, Andrew (1998), 'User Involvement and the NHS Reforms', *Health Expectations*, 1(2): 73-81.

Masterson, Steve ac Owen, Sara (2006), 'Mental Health Service Users' Social and Individual Empowerment: Using Theories of Power to Elucidate Far-reaching Strategies', *Journal of Mental Health*, 15(1): 19–34.

Molyneux, Jeanie ac Irvine, Julie (2004), 'Service User and Carer Involvement in Social Work Training: A Long and Winding Road?', *Social Work Education*, 23(3): 293-308.

Randall, Glen E. a Kindiak, Darlene, H. (2008), 'Deprofessionalization or Postprofessionalization? Reflections on the State of Social Work as a Profession', *Social Work in Health Care*, 47(4): 341-354.

SCIE (2007), *Common Aims: A Strategy to Support Service User Involvement in Social Work Education*, Social Work Education Position Paper (London: Social Care Institute for Excellence).

Shennan, Guy (1998), 'Are We Asking the Experts? Practice Teachers', *Use of Client Views in Assessing Student Competence in Social Work Education*, Vol 17, No 4.

Stevens, S. a Tanner, D. (2006), 'Involving Service Users in the Teaching and Learning of Social Work Students: Reflections on Experience', *Social Work Education*, 25(4): 360-371.

Stickley, Theo. (2006), 'Should Service User Involvement be Consigned to History? A Critical Realist Perspective', *Journal of Psychiatric and Mental Health Nursing*, 13: 570-577.

WAG (2003), *Care Council for Wales Rules for the Approval of Courses in Social Work* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Dr Anwen Jones

# Cymru, Cenedligrwydd a theatr genedlaethol: Dilyn y gwys neu dorri cwys newydd?

Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

# Cymru, Cenedligrwydd a theatr genedlaethol: Dilyn y gwys neu dorri cwys newydd?

*Dr Anwen Jones*

Yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain, mae'r theatr genedlaethol yn mwynhau cyfnod o lewyrch ac o ddatblygiad digon rhyfeddol. Yn 2004, torrodd gwawr newydd ar fyd y theatr yng Nghymru pan benderfynodd Cyngor y Celfyddydau glustnodi £750,000 tuag at sylfaenu cwmni theatr cenedlaethol newydd Cymraeg ei iaith. Llwyfannwyd cynhyrchiad teithiol cyntaf, *Theatr Genedlaethol Cymru*, *Yn Debyg iawn i Ti a Fi*, gan Meic Povey, rhwng Ebrill a Mai 2004. Aeth y cwmni ymlaen i lwyfannu cynyrchiadau teithiol blynyddol, yn cynnwys clasuron Cymraeg fel *Esther*, gan Saunders Lewis, gweithiau gwreiddiol gan ddramodwyr adnabyddus fel Meic Povey a chynnyrch diweddaraf talentau newydd megis Gwyneth Glyn a Manon Wyn. Mewn datganiad yn y Cynulliad ar y 9fed o Hydref 2007, dywedodd Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros Dreftadaeth:

> Un o'r mentrau diwylliannol mwyaf cyffrous yn ein rhaglen "Cymru'n Un" yw ein haddewid i sefydlu theatr Saesneg i Gymru. Dyma gyfle bendigedig inni adeiladu ar lwyddiant Theatr Genedlaethol Cymru. Mae hefyd yn pwysleisio ein hymroddiad llwyr i ddatblygu'r theatr ac, yn wir, bob ffurf ar y celfyddydau yn y ddwy iaith genedlaethol.[1]

Ar y 4ydd o Fawrth 2008, cyhoeddwyd enwau aelodau bwrdd cwmni cenedlaethol newydd Saesneg ei iaith. Yn fuan wedi hynny, ar yr 28ain o Orffennaf 2008, cafwyd datganiad i'r wasg yn cyhoeddi penodiad John E. McGrath yn gyfarwyddwr artistig ar y cwmni. Ym mis Chwefror 2009 penodwyd Catherine Paskell a Mathilde Lopez yn bartneriaid creadigol yn y cwmni. Yna, ym mis Mawrth 2010, cyhoeddodd *National Theatre Wales* raglen o dri chynhyrchiad ar ddeg i'w perfformio mewn amrywiol leoliadau ledled Cymru gyfan. Mae'r cyfryw gynyrchiadau, oll i'w perfformio yn ystod deunaw mis cyntaf oes y cwmni, bellach wedi eu cwblhau. Mae Cymoedd y De, Abertawe, Caerdydd, Cilieni, Abermaw, Pen-y-Bont ar Ogwr, Casnewydd, Wrecsam, Aberystwyth a Port Talbot ymhlith y rheiny a hawliodd eu lle ar y tirlun perfformiadol a esblygodd yn ystod rhaglen agoriadol y cwmni cenedlaethol cyfrwng Saesneg.

Mae'r cyffro yn heintus ond pa ffurf ar genedligrwydd Cymreig a daniodd, ac, sydd bellach yn gyrru'r creadigrwydd theatrig hwn? Cysyniad dadleuol fu'r cysyniad o genedligrwydd erioed. Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, bathwyd categorïau newydd megis cenedligrwydd dinesig neu ethnig fel rhan o ymgais i ddiweddaru'r derminoleg a ddefnyddiwyd wrth fynd i'r afael â thrafodaeth o'r genedl. Yn ei astudiaeth o'r drafodaeth gyfoes o genedlaetholdeb, mae Umut Özkirimli, yn dadlau bod y broses

[1] http:www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=60494&ds=11/2007#rhif4 (Cyrchwyd 22/6/2010).

o bennu categorïau cynhwysfawr wrth ddiffinio cenedligrwydd yn ymdrech i ddianc rhag diffiniadau gwrthgyferbyniol megis y gwrthrychol/goddrychol, neu'r diwylliannol/gwleidyddol.[2] Dywed Özkirimli i Hans Kohn gyfrannu at y broses yma o ail-frandio wrth wahaniaethu rhwng cenedligrwydd dinesig, ar y naill law, ac ethnig, ar y llall. Dadleuodd Kohn fod y cyntaf wedi ei nodweddu gan dueddiadau unigolyddol, gwirfoddol a gwleidyddol, tra bod yr olaf wedi'i wreiddio mewn ymdeimlad o berthyn a saernïwyd gan gysyniadau ynghylch hiliogaeth gyffredin a chydweddiad diwylliannol.[3]

Yn *The Taliesin Tradition*,[4] mae'r nofelydd a'r beirniad llenyddol, Emyr Humphreys, yn cyflwyno syniad o genedligrwydd Cymreig fel un ethnig, wedi ei ddiffinio yn ôl meini prawf diwylliannol ac organig. Mae Humphreys yn honni bod modd olrhain trywydd cyson o hanes cynnar Cymru hyd at ddegawdau olaf yr ugeinfed ganrif. Mae'n gwbl argyhoeddedig bod yma amlygiad cynyddol o deimlad o arwahanrwydd cenedlaethol a ganfyddir ac a fynegir trwy gyfrwng gweithgarwch diwylliannol. Mae ymddangosiad diweddar dwy theatr genedlaethol newydd yn awgrymu bod Cymru'r unfed ganrif ar hugain yn arddel y math o genedligrwydd a ddiffinnir gan Humphreys a Kohn fel cenedligrwydd ethnig. Yn eironig ddigon, cynigir y cyfryw ddiffiniadau gan Kohn yng nghyd- destun y gwrthgyferbyniad rhwng cenedligrwydd Dwyreiniol a Gorllewinol. Y cyntaf, chwedl yntau, yn arddangos cenedligrwydd ethnig, a'r olaf yn dangos y math dinesig. Ystyrir cenedligrwydd dinesig yn gyfoes, oherwydd ei fod yn gysylltiedig ag ymrwymiad i hawliau'r unigolyn, amrywioldeb, a democratiaeth. Os ydy dadansoddiad Humphreys o orffennol Cymru yn berthnasol o hyd i'w phresennol, yna mae'n ofynnol esbonio ymrwymiad y genedl i ganfyddiad o genedligrwydd a allai ymddangos yn hen ffasiwn yng nghyd-destun fframwaith gwybyddol bywyd modern. Rhaid gofyn a ydy dwy theatr genedlaethol newydd Cymru yn ailadrodd y gorffennol yn nhermau eu mynegiant a'u hymgorfforiad o genedligrwydd Cymreig? Neu, yn hytrach, a oes modd dadlau eu bod yn ymarfer y math o genedligrwydd modern a ddisgrifir gan Eley a Suny, fel 'a complex, uneven, and unpredictable process, forged from an interaction of cultural coalescence and specific political intervention, which cannot be reduced to static criteria of language, territory, ethnicity, or culture.'[5]

Mae dadansoddiad o genedligrwydd Cymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn darbwyllo'r darllenydd o ddilysrwydd dadl Humphreys. Mae'n bur amlwg nad ydyw'n briodol ei ddisgrifio yn ôl meddylfryd Hechteraidd fel ymdrech hanfodol wleidyddol. Wrth drafod cyflwr cymdeithas Cymru yn y cyfnod hwn, mae Glanmor Williams yn dadlau fod yna ddadeni deallusol ymysg carfannau newydd o'r boblogaeth Gymreig. Aiff yn ei flaen i ddisgrifio'r ymwybyddiaeth newydd hwn o genedligrwydd fel ffenomenon cyfansawdd

---

2 Gweler Umut Özkirimli, *Contemporary Debates on Nationalism: A Critical Engagement* (Palgrave Macmillan, 2005), t. 22.

3 Gweler Hans Kohn, *The Idea of Nationalism: A study in its Origins and Background* (Macmillan Company, 1945), Gweler t. 329 - 331.

4 Emyr Humphreys, *The Taliesin Tradition* (Black Raven Press, 1983).

5 Geoff Eley & Ronald Grigor Suny, 'Introduction: From the Moment of Social History to the Work of Cultural Representation' yn *Becoming National: A Reader* (goln.), Geoff Eley & Ronald Grigor Suny, (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1996), t. 8.

oedd yn cymhathu, 'an awareness of political, social and cultural issues for the first time.'[6] Priodolir y deffroad hwn, yn bennaf, i boblogrwydd a llwyddiant y wasg Gymraeg. Erbyn 1870 roedd yna ddeg ar hugain o gyfnodolion Cymreig a nifer fawr o bapurau newydd. Roedd llawer o'r cyfnodolion cynnar yn enwadol eu natur ac wedi eu hysbrydoli gan flaenoriaethau a rhaglen grefyddol, anghydffurfiol ei natur, gan amlaf. Eto, roeddynt oll yn ymrafael â chwestiynau o ddiddordeb cenedlaethol mewn ffordd ysgolheigaidd, sydd yn bwrw'r wasg gyfoes Gymraeg i'r cysgod. Mae'n wir fod cylch eu darllen yn gyfyng, ond lledaenwyd y deunydd ar lafar gwlad i gynulleidfa lawer ehangach na'r llythrennog rai. Mae engrafiad T. H. Thomas o dan y teitl, 'Llywelyn Pugh addresses his friends at the Smithy on the rise and virtues of Welsh Nonconformity', (1883),[7] yn cadarnhau'r ffaith fod sffêr gyhoeddus Ewrop gyfan a ddisgrifiwyd gan Jürgen Habermas fel cadarnle trafodaeth gyhoeddus, resymegol a chydraddol, yn raddol ymgofleidio Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Arweiniodd hyn, yn ôl Williams, at deimlad cryf o ymlyniad ideolegol ac undod ymysg y Cymry. Wedi dweud hynny, yr hyn oedd ar goll, meddai, oedd trefniadaeth wleidyddol effeithiol.

Drysir Williams gan ddiffyg gweithgarwch gwleidyddol ac absenoldeb unrhyw strwythurau gwleidyddol i hwyluso mynegiant cenedligrwydd Cymraeg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cytuna fod, yng Nghymru:

> an articulate, self-conscious public opinion finding expression through its own vernacular; sustaining and in turn being sustained by a thriving press; often sharply critical of a landowning class and an established church speaking a different language and upholding different cultural modes.[8]

Roedd bodolaeth y math hwn ar gyhoedd cyfoes yn cyffelybu'r Cymry i genhedloedd Canol a Dwyrain Ewrop yn yr un cyfnod, yn enwedig Iwerddon. Er hyn, mae Cymru'n unigryw o ganlyniad i'w diffyg cymhelliant gwleidyddol a chwyldroadol. Gofynna Williams pam nad oedd unrhyw alwad am annibyniaeth yn y cyfnod hwn? Yn fy marn i, canfyddir yr ateb yn ymrwymiad Cymru, yn y cyfnod hwn, i ymdeimlad o genedligrwydd oedd yn ethnig, yn nhermau ei wreiddiau ideolegol, yn ogystal â'i fynegiant cysyniadol ac ymarferol o'r cyfryw ideoleg.

Mae cymhariaeth â'r profiad Gwyddelig yn yr un cyfnod yn awgrymu bod gan y ddwy wlad anawsterau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyffredin ond eu bod yn ymateb i'r cyfryw rwystrau mewn ffyrdd tra gwahanol. Yn Iwerddon, o'r cychwyn cyntaf, ffurfiwyd gweledigaeth a rhaglen o weithredu gwleidyddol a ganolai ar y cysyniad o annibyniaeth gwleidyddol, cenedlaethol. Ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymddangosodd Daniel O'Connell fel arwr Iwerddon Gatholig. Erbyn1828, roedd wedi canoli sylw ar yr angen am newidiadau ym maes cynrychiolaeth genedlaethol trwy

---

6 Glanmor Williams, *Religion, Language, and Nationality in Wales: Historical Essays*, (GPC, 1979), t. 143.

7 Cyfeirir at yr engrafiad yng nghyfrol Peter Lord, *Gwenllian: Essays on Visual Culture* (Gwasg Gomer, 1994), t. 65.

8 Williams, (GPC, 1979), t. 143.

sefyll fel ymgeisydd yn isetholiad Clare.[9] Cynyddu wnaeth gweithgarwch gwleidyddol yn Iwerddon wedi marwolaeth O'Connell ym 1847. Erbyn 1858 roedd y Frawdoliaeth Fenian wedi ei sefydlu yn yr Unol Daleithiau, rhuai'r Rhyfeloedd Tir o 1879 ymlaen, ac erbyn 1880 roedd Plaid Seneddol Iwerddon yn galw am Hunanreolaeth. Yn ddiau, roedd yna hefyd adfywiad llenyddol yn Iwerddon o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Gellid dadlau i'r *Irish Literary Theatre* a'i olynydd yr *Irish National Theatre* gyfrannu at boblogeiddio gweledigaeth genedlaethol, wleidyddol-ymosodol a daeth i'w anterth gyda gwrthryfel y Pasg, 1916. Saernir delwedd rymus o'r genedl yn y ddrama, *The Countess Kathleen* gan William Butler Yeats, a lwyfannwyd yn yr *Irish Literary Theatre* ym 1899 gan Yeats, Lady Augusta Gregory, George Moore ac Edward Martyn. Ar y llaw arall, diddorol nodi dadl Lionel Pilkington fod a wnelo'r *Irish Literary Theatre* yn yr 1890au hwyr, lai â chenedligrwydd Gwyddelig nag â'r weinyddiaeth Brydeinig yn Iwerddon, a'i pholisïau o ddiwygio a chymodi.[10] Beth bynnag oedd union gymhelliad gwleidyddol mentrau theatraidd mwyaf amlwg troad yr ugeinfed ganrif yn Iwerddon, mae'n deg dweud na ddewisodd y genedl weithgaredd gelfyddydol ar draul gweithredu gwleidyddol ar unrhyw adeg.

Mae cofnod Kenneth O. Morgan o'r anawsterau oedd yn wynebu Cymru yn yr un cyfnod yn cadarnhau'r syniad bod y wlad yn llafurio o dan nifer o'r un beichiau â'r Iwerddon. Mae Morgan yn cyfrif diwygiad tir, y cwestiwn o Ryddfreinio, a diffyg addysg ganolradd fel drain yn ystlys Cymru. Wedi dweud hynny, aiff yn ei flaen i ddadlau nad gwlad chwyldroadol oedd Cymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r ugeinfed ganrif. Gwlad, yn hytrach, a ystyriai; 'politics as a compassionate, civilizing force' a chenedl a droes ymaith rhag; 'the futile chimera of pseudo- or quasi-revolutionary activity, opting instead for artistry in its use of political power'.[11] Cefnogir ei honiadau gan hanes gyrfaoedd gwleidyddion ifanc, addawol megis Thomas Edward Ellis a David Lloyd George, a ddaethant i'r amlwg yn y cyfnod rhwng yr etholiadau mawrion ym 1868 a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Teimla Morgan bod yna lais Cymreig i'w glywed o fewn i'r blaid Ryddfrydol, yn dilyn sefydlu'r blaid Ryddfrydol Seneddol Gymreig ym 1888. Cadarnheir yr argraff hon yn nhudalennau *Young Wales*,[12]ble portreadir ASau Rhyddfrydol o Gymru a oedd wedi codi i enwogrwydd o fewn y Blaid Brydeinig, fel Cymry ifanc blaengar a unwyd yn y frwydr am annibyniaeth wleidyddol Gymreig. Noda'r un cyfnodolyn dderbyniad ffafriol T. E. Ellis a Lloyd George o anerchiad Michael Davitt o blaid hunanreolaeth i Iwerddon ym Mlaenau Ffestiniog ym 1885.[13]

---

9 Er gwaetha'r ffaith i Daniel O'Connell gael ei ethol i gynrychioli Clare yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1828, ni allai gymryd ei sedd am y byddai'n rhaid iddo dyngu Llw Goruchafiaeth a oedd yn anghydnaws â Chatholigaeth. Newidiwyd y drefn hon yn 1829.

10 Gweler Lionel Pilkington, *Theatre and the State in twentieth-century Ireland: cultivating the people* (Routledge, 2001), t. 7.

11 Kenneth O. Morgan, 'The Welsh in English Politics, 1868-1982' yn *Welsh Society and Nationhood: Historical Essays Presented to Glanmor Williams*, (goln.), R. R. Davies, Ralph A. Griffiths, Ieuan Gwynedd Jones a Kenneth O. Morgan, (GPC, 1984), t. 250.

12 Cyhoeddwyd, *Young Wales. A National Periodical for Wales*, fel cyfnodolyn misol o dan olygaeth John Hugh Edwards o 1895-1902. Mae cyhoeddwyr yn amrywio ond cyhoeddwyd y cyfrolau a geir ar silffoedd agored y Llyfrgell Genedlaethol gan, The Welsh National Press Company (Ltd): Caernarvon.

13 Gweler 'Leading Young Welshmen: Thomas Ellis M.P.' yn *Young Wales. A National Periodical for Wales*, (gol.), John Hugh Edwards (The Welsh National Press Company (Ltd, 1896.), t. 93.

Mewn papur diweddar nas cyhoeddwyd eto, dadleua'r Athro Wynn Thomas fod cyfnodolion fel, *Young Wales*, a ffynnai yn y 1890au o dan nawdd ymgyrch 'Cymru Fydd', wedi eu hysbrydoli gan eu rhagflaenydd Gwyddelig, *Nation,* Gavan Duffy. Wedi dweud hynny, mae Thomas ei hun yn disgrifio'r diddordeb yng Nghymru mewn materion Gwyddelig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel un gochelgar. Noda bod yna agendor rhwng rhyddfrydwyr blaengar a alwai am fesur o hunanreolaeth o fewn yr ymerodraeth Brydeinig, a'r rheini oedd yn blaenoriaethu'r genhadaeth ddiwylliannol o feithrin ymdeimlad cenedlaethol drwy gyfrwng addysg a chelfyddyd. Does dim dwywaith fod anerchiad adnabyddus Ellis, 'The Memory of the Kymric Dead', yn argymell meithrin celfyddyd genedlaethol i'r un graddau ag annibyniaeth genedlaethol. Yn wir, mae Ellis i'w weld yn ymddieithrio Cymru rhag cysyniad dinesig o genedligrwydd gan ddadlau, 'Though Wales is, in modern times, largely individualist, we cannot but feel that it has been the land of *cyfraith, cyfar, cyfnawdd, cymorthau and cymanfaoedd*, the land of social co-operation, of associative effort'.[14]

Er gwaethaf hyn, roedd yna wleidyddion yng Nghymru a oedd am dynnu sylw at y tebygrwydd rhwng sefyllfaoedd Iwerddon a Chymru a hynny ar berwyl gwleidyddol. Mewn traethawd ar daith fuddugoliaethus William Ewart Gladstone o amgylch Abertawe a'r fro ym 1887, awgryma Richard Shannon fod Gladstone yn ymdrechu i drawsffurfio dathliad o genedligrwydd Cymreig yn rhywbeth amgen.[15] Deisyfiad Gladstone, yn ôl Shannon, oedd cyfuno egnïon y cyhoedd, a oedd wedi eu cyniwair gan fesurau diwygio diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, er mwyn gwthio mesur hunanreolaeth trwy Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Yn y diwedd, methodd cynllun Gladstone. Yn wir, mae Shannon yn mynd cyn belled ag awgrymu i'r gwladweinydd mawr gamgymryd dathlu ymwybyddiaeth newydd o genedligrwydd yng Nghymru am lasbrint am hydreiddiad Rhyddfrydiaeth Brydeinig ym Mhrydain a thu hwnt. Os methodd ymweliad Gladstone ag Abertawe danio fflam wleidyddol fwy deifiol ar lefel genedlaethol yng Nghymru, fe dystiodd i fodolaeth a gorfoledd ymdeimlad newydd o genedligrwydd ymhlith y cyhoedd. Mae disgrifiad Shannon o gyffro theatrig taith Gladstone a drama'r orymdaith o 49,000 yn Abertawe ar ddydd Sadwrn y 4ydd o Fehefin, 1887, yn afaelgar. Wrth i'r miloedd ffrydio, am gyfnod o dros bedair awr; 'through the Abbey gate on the Mumbles road and swung round across the great sward in front of the South terrace of the Abbey and marched out by the lower gate further down the road',[16] datganwyd ymdeimlad newydd o genedligrwydd gorfoleddus. Does dim dwywaith nad achlysur theatraidd oedd gorymdaith Abertawe: achlysur sy'n ein harwain at yr arddangosfa fwyaf theatrig o ymffrost cenedlaethol a welwyd yn yr ugeinfed ganrif yng Nghymru, sef Pasiant Cenedlaethol Caerdydd, 1907. Digwyddiad rhwysgfawr oedd hwn a ddisgrifiwyd gan Hywel Teifi Edwards fel, 'the only attempt of its kind, to this day, to present a mass audience with a version of Welsh history from Caradoc's defiance of the Roman Empire to the Act of Union in 1536.'[17] Yn hytrach na dilyn yn ôl troed Iwerddon wrthryfelgar, trodd Cymru'r

---

14 Thomas E. Ellis, 'The Memory of the Kymric Dead' yn *Speeches and Addresses by the late T. E. Ellis, M.P.* (Hughes a'i Fab, 1912), t. 22.

15 Richard Shannon, 'Mr Gladstone and Swansea,1887', Darlith a draddodwyd ar 18fed Tachwedd, 1980, (Prifysgol Abertawe, 1982).

16 Shannon, (Prifysgol Abertawe, 1982), t. 6.

17 Hywel Teifi Edwards, *The National Pageant of Wales.* (Gwasg Gomer, 2009), t. ix.

ugeinfed ganrif at gelfyddyd er mwyn mynegi ymdeimlad newydd o genedligrwydd trwy gyfrwng pasiant cenedlaethol. Bron i hanner canrif yn gynharach, ceir tystiolaeth o ymateb tebyg i achlysur hollbwysig arall yn y broses o greu neu ganfod hunaniaeth genedlaethol, Cymraeg - Brad y Llyfrau Gleision,1847.[18] Arweiniodd yr ymosodiad hwn ar foesau, addysg a diwylliant Cymru, at gyhoeddi anterliwt gan Robert Jones Derfel ym 1854.[19] Ynddi, ceir Beelzebub, yn eistedd ar orsedd drygioni, wedi ei amgylchynu gan ei brif gynghorwyr, Dialedd, Eiddigedd, Difenwad, Llid, Anwireddau, Rhagrith, Sarhad a Thristwch, oll wedi eu modelu ar gomisiynwyr ac arweinyddion yr adroddiad damniol hwn. Comisiynwyr sydd, yn ôl Derfel, yn casáu'r genedl Gymreig gymaint ag y maent yn casáu Duw ei hun!

Mae'r ddau ddatganiad artistig yma yn dystiolaeth o'r duedd i fynegi cenedligrwydd Cymreig trwy gyfrwng celfyddyd yn hytrach na gwleidyddiaeth. Mae'r ddau hefyd yn dangos anaeddfedrwydd y gelfyddyd theatrig yng Nghymru yn y cyfnod hwn. Er na ellir ystyried anterliwt R. J. Derfel yn greadigaeth anturus yn nhermau theatr, dichon ei bod, o leiaf, yn gynnyrch dramataidd mwy cynhenid Cymreig nag oedd pasiant Cenedlaethol Caerdydd. Medrai Derfel wreiddio ei ddrama mewn gorffennol pan oedd anterliwtiau Cymraeg Twm o'r Nant yn eu hanterth. Rhaid oedd i basiant Caerdydd edrych tua Lloegr am draddodiad a hanes a hynny'n draddodiad go elfennol yn nhermau'r grefft theatraidd. Lleolwyd Pasiant Cenedlaethol Caerdydd o fewn i gyd-destun Prydeinig, Imperialaidd ac ynddo fe ddangosodd Cymru deyrngarwch i gredoau a gwerthoedd Prydeinig, yn hytrach nag i unrhyw annibyniaeth genedlaethol, flaengar. Yn wir, llwyfannwyd y pasiant o dan arweinyddiaeth Arthur Owen Vaughan neu Owen Rhoscomyl, Cymro angerddol ond un a oedd yn gyfan gwbl ffyddiog o haeddiant Cymru i'w rhan yn hanes gorfoleddus Prydain Imperialaidd.

Diddorol nodi'r gwrthgyferbyniad rhwng y diffyg ymateb i alwad Tom Jones ym 1894[20] am theatr genedlaethol broffesiynol, ag ymroddiad twymgalon y brifddinas i'r pasiant cenedlaethol. Er na fu ymateb i alwad Jones ym 1894, mae'n ddigwyddiad o bwys am ei fod yn lleoli'r ymgyrch am theatr genedlaethol yng Nghymru yng nghyd-destun patrwm o weithgaredd diwylliannol a oedd yn neilltuol i Gymru - yr Eisteddfod Genedlaethol. Galwodd Jones am gefnogaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i'r fenter ac awgrymodd y gellid cynnig; 'a grand prize, leave the subject open, and give one Eisteddfod night to have the prize drama acted and staged'.[21] Roedd yn gwbl argyhoeddedig mai'r Eisteddfod Genedlaethol oedd y sefydliad diwylliannol delfrydol i feithrin theatr genedlaethol yng Nghymru. Rai blynyddoedd yn ddiweddarach, awgrymodd Lloyd

---

18 Adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a gomisiynwyd gan senedd San Steffan ac a gyflwynwyd ym 1847 oedd hwn. Mae'n debyg taw R. J. Derfel a fathodd iddo'r enw 'Brad y Llyfrau Gleision' a oedd yn gyfeiriad at chwedl Brad y Cyllyll Hirion. Dyma hefyd oedd teitl anterliwt R. J. Derfel ar y pwnc.

19 Robert Jones, (R. J. Derfel) *Brad y Llyfrau Gleision* (I. Clarke, Rhuthyn), 1854.

20 Ym 1894, gwnaethpwyd apêl gan Tom Jones i ddarllenwyr, *Wales, A national Magazine for the English speaking parts of Wales*, i ddod at ei gilydd yn enw celfyddyd a sefydlu cwmni theatr, genedlaethol, broffesiynol. Am fanylion pellach, gweler Anwen Jones, *National Theatres in Context: France, Germany, England and Wales* (GPC, 2007), tt. 143, 167 & 183.

21 The Welsh Drama', *Wales*, cyf 1, rhif 8, Rhagfyr, 1894, 374.

George y gallai rhyddhau'r genedl o'r cadwynau eisteddfodol ehangu ei gorwelion. Er gwaethaf hyn, roedd gwerth yr ŵyl fel fforwm cenedlaethol a allai feithrin diwylliant theatrig y genedl yn amhrisiadwy.

Un a wnaeth yn fawr o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol oedd Iolo Morganwg, neu Edward Williams. Wrth roi lle blaenllaw i'r Orsedd yn yr Eisteddfod, cyfreithlonwyd actio fel gweithgaredd diwylliannol dilys. Mae'r berthynas rhwng seremoni'r Orsedd a theatr genedlaethol, pan ystyrir y ddau fel gweithgaredd cymunedol, diwylliannol a luniwyd er mwyn cryfhau hunaniaeth gyffredin, yn esbonio pam roedd yr Eisteddfod mor bwysig yn nhermau datblygiad theatr genedlaethol yng Nghymru. Yn gyntaf, darganfu'r Cymry eu bod yn meddu ar y gallu i'w trawsffurfio eu hunain, neu mewn geiriau eraill, eu bod yn genedl theatraidd. Yn ail, daethant i sylweddoli y gallai hyn eu rhyddhau, am ennyd, o leiaf, rhag cyfyngiadau bywyd go iawn a rhoi iddynt fynediad i fyd ble y gallent archwilio a mynegi eu hunaniaeth genedlaethol trwy gyfrwng proses o ddarganfyddiad dramatig. Gellir dadlau bod sefydlu'r Orsedd yn rhan ganolog o'r Eisteddfod, yn dynodi cyfnewid y cyd-destun Prydeinig a fu'n gadarnle i basiant Rhoscomyl, am fformiwla wahanol, Geltaidd ble roedd Primrose Hill, Llundain, man geni Gorsedd y Beirdd, yn chwarae rhan yr un mor bwysig â'r cynefinoedd Cymreig.

Byddai'n amhriodol dadlau i Iolo fwriadu i'w ddyfeisgarwch gael effaith uniongyrchol ar statws a rôl theatr yng Nghymru. Roedd hi'n sefyllfa gwbl wahanol ar droad yr ugeinfed ganrif, pan gysegrodd un unigolyn ei holl ymdrechion i sefydlu theatr genedlaethol – yr unigolyn hwn oedd yr Arglwydd Howard de Walden. Roedd yr Arglwydd de Walden yn awyddus i feithrin ysgol newydd o ddramodwyr ifainc Cymreig a fyddai'n gallu dramateiddio'r gwrthdaro chwyrn rhwng, 'the old and the new value systems ... (T)he most common confrontation ... that between the formalistic Calvinism of the narrow-minded and often hypocritical Nonconformist deacon and the broader, humanitarian theology of the younger generation.' [22] Yn wir, llwyddodd i ysbrydoli llu o ddramodwyr, newydd, dosbarth canol, addysgedig, fel D. T. Davies, J. O. Francis, ac R. G. Berry, a ymatebodd yn frwdfrydig i'r wobr o ganpunt a gynigiwyd ganddo yn Eisteddfod 1911 mewn cystadleuaeth i ddarganfod, 'the best play, in Welsh or English, suitable for the repertory of a Welsh national dramatic company touring in Wales.[23] ,

Roedd yr Arglwydd de Walden yr un mor ymroddedig i'r ymdrech i weddnewid y grefft o gynhyrchu theatr ar lefel genedlaethol ac i safon genedlaethol ag yr oedd i feithrin sgiliau dramodwyr Cymreig. Dyma'r weledigaeth a'i ysbrydolodd i gael grŵp bychan o actorion i sefydlu'r *Welsh National Drama Company* a berfformiodd yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn y New Theatre, Caerdydd rhwng Mai 11-16, 1914. Mae lliaws o adroddiadau positif yn y wasg yn cofnodi llwyddiant ymdrech blaengar Arglwydd de Walden. Er gwaethaf hyn, ni fu'n hir cyn i'r cwmni ddod wyneb yn wyneb â chwestiwn anodd yr iaith Gymraeg a'i pherthynas â Chymru a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Tanlinellodd apêl Tom Jones ym 1894 y gwrthdaro mewnol wrth galon cymdeithas Cymru, wrth iddo nodi y byddai'n rhaid i unrhyw theatr genedlaethol a fynnai ddarparu ar gyfer y genedl gyfan fod yn

---

22 Ioan Williams, 'Towards national identities: Welsh theatres' yn The *Cambridge History of British Theatre*, cyf 3, (gol.), Baz Kershaw (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2004), t. 247-8.

23 Owen Rhoscomyl, 'National Drama', *Western Mail*, 6/12/1913, 6.

ddwyieithog. Tra yr oedd cynulleidfa Abertawe yn Neuadd Albert yn ddigon parod i gymeradwyo tipyn Cymraeg yr Arglwydd de Walden, 'Mr Cadeirydd, Foneddigesau a Boneddigion',[24] gwelai eraill y berthynas rhwng eu Theatr Genedlaethol a'u hiaith genedlaethol yn un dyrys ar y naw. Cyn hir, cyhuddwyd cwmni'r Arglwydd de Walden o ymarfer ac o hysbysebu yn Saesneg, ac yn waeth byth, o flaenoriaethu cynyrchiadau Saesneg eu hiaith.

Mewn gwirionedd, nid oedd y meini ieithyddol a fu'n dramgwydd i ymdrechion de Walden ond yn un agwedd ar wrthdaro amlochrog a oedd wrth wraidd cysyniad y genedl ohoni hi'i hun. Yng Nghymru, daeth y gwrthdaro rhwng amcanion a gobeithion y theatr genedlaethol, ar y naill law, a'r traddodiad amatur, ar y llall, i gynrychioli'r gagendor rhwng traddodiad o hunanddiogelu cymdeithasol a chwant newydd i dderbyn ac efelychu dylanwadau Ewropeaidd, er mwyn cyrraedd safonau rhyngwladol. Bu peth cydweithio ac fe gynigiodd Dan Matthews, cyfarwyddwr amatur adnabyddus, fôr o brofiad ymarferol i'r newydd-ddyfodiaid proffesiynol. Ond, yn y diwedd, enillodd gwrthdaro'r blaen ar gydweithio. Siarsiwyd yr Arglwydd de Walden i ailwampio ei bolisi a mynd ati i sicrhau bod, 'every village, every remote rural hamlet' yn cael cymdeithas ddrama amatur, 'as much as a matter of course as its local choir'.[25] Digon posibl fod cyngor Beriah Gwynfe Evans i'r cwmni theatr cenedlaethol gefnogi'r mudiad amatur trwy ddarparu setiau, gwisgoedd, posteri hysbysebu, a chyfarwyddiadau ynghylch sut i 'fit up a model in the village schoolroom'[26] yn gam am yn ôl yng nghyd-destun datblygiad y gelfyddyd theatrig yng Nghymru. Beth bynnag am hynny, roedd yn amlwg bod Evans yn gwbl argyhoeddedig mai dyna'r unig ffordd i gynnal y diwylliant Cymreig a oedd yn anadl einioes iddo fe a llawer o Gymry eraill.

Y cwestiwn sylfaenol oedd, a ddylai theatr genedlaethol Gymreig fod yn gyfrwng i ddiogelu a dathlu hynodrwydd diwylliannol y genedl? Neu, a ddylai hi, yn hytrach, gyflwyno'r wlad i werthoedd a safonau a fewnforiwyd ac a fyddai'n pontio rhwng Cymru a'r byd y tu hwnt? Roedd ymdrechion Saunders Lewis, a'i ffrind R. O. F. Wynne, i sefydlu theatr ar ystâd Wynne yng Ngarthewin, yn gyfraniad i'r cyfryw drafodaeth. Wedi methiant ymgais i sylfaenu theatr genedlaethol yng Nghaerdydd yn yr ugeiniau, gobeithiai Lewis ac Wynne greu theatr arbrofol yng Ngarthewin a fyddai'n cynnal y safonau proffesiynol uchaf a symud y theatr yng Nghymru ymlaen i uchelfannau newydd. Fe fu'r fenter yn llwyddiannus a chynhaliwyd nifer o berfformiadau, gwyliau a chynadleddau yng Ngarthewin o dan arweiniad y ddau arloeswr. Er gwaethaf hyn, arbrawf oedd menter Garthewin ac nis bwriadwyd erioed fel ymgais i sefydlu'r math o theatr genedlaethol, safonol sydd fwyaf cyfarwydd i gynulleidfaoedd a chyrff cyllido cyhoeddus y cyfnod modern. Wrth i gefnogwyr Garthewin ymroi i arbrofi â'r cysyniad o theatr genedlaethol, roedd datblygiadau eraill, mwy prif ffrwd, ar waith. Un o'r rhain oedd sefydlu, *The Welsh Theatre Company* gan Gyngor y Celfyddydau ym 1962, cwmni a oedd i sicrhau darpariaeth ar lefel broffesiynol, priodol er gwaethaf anawsterau daearyddol a diffyg adeiladau addas; ffactorau a oedd yn dân ar groen y Cyngor a'r cyhoedd yng Nghymru.

---

24 'A Masterpiece Coming', *The Cambria Daily Leader*, 24/10/1919, 1.

25 Beriah Gwynfe Evans, 'Welsh National Drama: Lord Howard de Walden's Mistake and How it may be rectified, II', *Wales: The National Magazine,* VI, (1914), t. 98.

26 Evans, *Wales* ,t. 100.

Cyd-darodd tynged *Cwmni Theatr Cymru* â chychwyn cyfnod ôl-fodernaidd, pan fynnodd *Brith Gof* ganol llwyfan ym maes y theatr yng Nghymru. Er bod y gwahaniaeth rhwng y ddau gwmni yn amlwg - *Cwmni Theatr Cymru*, yn gwmni theatr traddodiadol[27] â phwyslais ar destun, a *Brith Gof*, yn gasgliad o arbenigwyr theatr a ganolbwyntiai ar waith corfforol, arbrofol. Yn wir, gall ysfa *Brith Gof* i ddefnyddio theatr fel ffordd o weithredu `a satisfying, dignified, personal-political arrangement'[28] gael ei ddehongli fel fersiwn ôl-fodern o'r cysyniad o theatr genedlaethol. Gellir hefyd ei ddehongli fel arwydd o wrthodiad o genedligrwydd ethnig, o blaid cysyniad mwy dinesig o hunaniaeth genedlaethol.Yn ôl Roger Owen, daeth cyfnod o weithgaredd theatrig, cenedlaethol, cyfrwng Cymraeg, cyffrous i ben ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Dadleua Owen fod llwyddiant yr ymgyrch `le dros Gymru', wedi caniatáu i'r theatr Gymraeg ddiosg baich y cyfrifoldeb gwleidyddol a ysgwyddodd yn ystod cyfnod goruchafiaeth llywodraeth Geidwadol ym Mhrydain, yn negawdau ola'r ugeinfed ganrif.[29] Ategir argraff Owen o'r bwlch rhwng ewyllys wleidyddol Cymru a realaeth ei sefyllfa wleidyddol yn y cyfnod hwn gan honiadau David Adams nad oedd, yn y cyfnod cyn datganoli, fforwm ar gyfer trafodaeth o natur wleidyddol, lle y gellid mynegi cyfoeth a chymhlethdod hunaniaeth genedlaethol Cymru.[30] Rhoddodd agoriad swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 1999, i Gymru, `a democratically elected, representative institution' a datganwyd geni'r `political nation.'[31] O ganlyniad, yn ôl Owen, collwyd rôl wleidyddol y cwmnïau ymylol a ffynnodd yn y bwlch a adawyd gan ddiflaniad *Cwmni Theatr Cymru.* Wrth i'r cyfryw ddyletswyddau gael eu trosglwyddo i'r corff etholedig newydd a oedd i arwain Cymru i'r unfed ganrif ar hugain, collodd y theatr Gymraeg gyfeiriad a chenhadaeth.

Sut felly y gallwn ni esbonio ymddangosiad dwy theatr genedlaethol newydd ar droad yr unfed ganrif ar hugain? A yw hi'n deg dadlau fod dwy theatr genedlaethol newydd Cymru yn ymarfer y gorffennol yn nhermau eu datganiad a'u hymgorfforiad o genedligrwydd Cymreig? Ar un llaw, mae bodolaeth dwy theatr genedlaethol, newydd, wedi eu hariannu gan asiantaethau annibynnol, led braich o'r llywodraeth, yn rhoi gwawr gyfoes i genedligrwydd Cymreig. Onid dyma esiampl o gynghreirio gwleidyddol/diwylliannol sydd yn herio ymgais Hans Kohn i osod y naill elfen mewn gwrthgyferbyniad â'r llall yn ei drafodaeth ef o natur cenedligrwydd? Ar y llaw arall, mae sefyllfa gyfredol y ddau gwmni cenedlaethol yn awgrymu na fydd dyfodiad yr unfed ganrif ar hugain yn gweddnewid hanes y theatr genedlaethol yng Nghymru. Ychydig iawn o dystiolaeth ddiweddar sy'n awgrymu y gellid cyfnewid y traddodiad cyson o ddiwygio, adnewyddu

---

27 Sefydlwyd Adran Antur *Cwmni Theatr Cymru* ym 1965. Am fanylion pellach, gweler Jones (GPC, 2007), t. 207. Amcan yr adran oedd dilyn trywydd mwy arbrofol ac fe fu'n llwyddiannus. Fe fu hefyd peth cydweithio rhwng *Cwmni Theatr Cymru* a *Brith Gof*. Er gwaetha'r cyfryw ddatblygiadau, teg diffinio'r cyntaf fel sefydliad traddodiadol o'i gymharu â'r olaf.

28 Charmian Savill, `A Critical Study of the history of the Welsh Theatre company Brith Gof' (Traethawd MPhil, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1993), t.1.

29 Gweler Roger Owen, *Ar Wasgar: Theatr a Chenedligrwydd yn y Gymru Gymraeg, 1979-1997* (GPC, 2003), t.219 – 220.

30 Gweler David Adams, *Stage Welsh, Nation, nationalism and theatre: the search for cultural identity* (Gwasg Gomer, 1996), t. 9.

31 Denis Balsom, `No Going Back' in *Birth of Welsh Democracy: The First Term of the National Assembly for Wales* (goln.) John Osmond & J Barry Jones, (Sefydliad Materion Cymreig, 2003), t. 305.

ac aileni sydd wedi nodweddu hanes y theatr genedlaethol yng Nghymru trwy gydol yr ugeinfed ganrif, am batrwm gwahanol.

Eto, efallai taw dyma'r cyfnod tyngedfennol yn hanes y ddau gwmni a hynny am fod y broses o sefydlogi gwleidyddol, sy'n agwedd ar bresennol a dyfodol gwleidyddiaeth datganoli yn yr unfed ganrif ar hugain, yn cynnig llwyfan sefydlog i'r ddau gwmni theatr cenedlaethol am y tro cyntaf yn eu hanes. Mae'r cwmni cyfrwng Cymraeg newydd oroesi cyfnod o adolygiad a sbardunwyd gan adolygiad trylwyr o gyllido'r celfyddydau yng Nghymru gan y Cyngor Celfyddydau. O ganlyniad gellir edrych ymlaen at gyfnod o frwdfrydedd a gweithgarwch ffres o dan arweiniad y cyfarwyddwr artistig, Arwel Gruffydd. Mae'r cwmni cyfrwng Saesneg yn mynd o nerth i nerth ac newydd lansio ail gymal ei raglen agoriadol gan symud gam yn agosach at gynllun hirdymor, cynaliadwy. Yn sicr, fe fydd y flwyddyn neu ddwy nesaf yn gyfnod tyngedfennol wrth i ni ddarganfod a ydyw'r sefydlogi gwleidyddol yn sgil pleidlais refferendwm Mawrth 4, 2011, pan bleidleisiodd Cymru o blaid trosglwyddo pwerau deddfu dethol i lywodraeth y Cynulliad, yn arwain at gyfnod o sefydlogrwydd cynhyrchiol i ddwy theatr genedlaethol Cymru pan fyddant yn cyfrannu at y broses gyfoes a ddisgrifir gan Eley a Suny fel, `an interaction of cultural coalescence and specific political intervention.'[32]

[32] Eley &Suny, (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1996), t. 8.

# Cyfranwyr

## *Catrin Fflur Huws*

Darlithydd yn Adran y Gyfraith a Throseddeg, Prifysgol Aberystwyth yw Dr Catrin Fflur Huws. Fel cadeirydd y Ganolfan Materion Cyfreithiol Cymreig y mae'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yr adran, ac hefyd am gydlynu gwaith ymchwil yr adran sydd yn ymwneud â Chymru. Ei harbenigedd ymchwil yw'r persbectif Cymreig ac agweddau o'r gyfraith, a chan hynny y mae wedi cyhoeddi gwaith ar statws gyfreithiol yr iaith Gymraeg, polisïau tai fforddiadwy a llenyddiaeth Gymraeg fel sylwadaeth ar gyfraith Lloegr. Bellach y mae'n gweithio ar brosiect ar Ddatganoli a Mynediad at Gyfiawnder.

## *Sally Baker*

Mae Sally Baker yn Gymrawd Ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys diwygio lles neo-ryddfrydol a hunaniaeth genedlaethol yn ogystal â chymwysiadau newydd a datblygiadau o theori Bourdieusaidd. Y mae wedi cyhoeddi'n helaeth, yn arbennig mewn cysylltiad â chefn gwlad Cymru.

## *Hefin Gwilym*

Hefin Gwilym yw Cyfarwyddwr Gweithredol Astudiaethau Gwaith Cymdeithasol yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Ef hefyd yw Cydlynydd y Cwrs gradd MA mewn Gwaith Cymdeithasol Uwch. Y mae wedi cyhoeddi ar amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion yng Nghymru ac iechyd meddwl.

## *Brian J. Brown*

Mae Brian J. Brown yn Ddarllenydd mewn Cyfathrebu Iechyd ym Mhrifysgol De Montfort. Mae ganddo ddiddordeb mewn cwestiynau athronyddol yn ymwneud â natur iaith ac ystyr ar draws amrywiaeth o feysydd testun yn y gwyddorau cymdeithasol a meddygol, ac mae wedi cyhoeddi'n helaeth yn y meysydd hyn.

## *Anwen Jones*

Mae Dr Anwen Jones yn Gyfarwyddwraig Dysgu ac Addysgu ac yn ddarlithydd yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ei gwaith dysgu yn canolbwyntio ar theatr Cymru ac Ewrop, ac mae hi hefyd yn cynnal cyfres o fodiwlau cydweithredol ym maes sgriptio ar gyfer y theatr. Hi yw awdur y gyfrol, *National Theatres in Context: France, Germany, England and Wales* (GPC, 2007). Ym 2009, cyd-olygydd y gyfrol *Wil Sam: Dyn y Theatr* (Gwasg Carreg Gwalch, 2009). Mae'r erthygl a

gyhoeddir yma yn adlewyrchu rhan o'i gwaith ar hanes diweddar theatr genedlaethol yng Nghymru yng nghyd-destun mynegiant o genedligrwydd diwylliannol a gwleidyddol. Gellir gweld agweddau eraill ar yr ymchwil hon yn *Llên Cymru*, cyfrol 29 (2006) a *Cof Cenedl*, rhif 23 (2008). Mae hi hefyd wedi cyhoeddi erthyglau ar ddrama Ffrainc trwy gyfrwng y Saesneg ac mae'n ymchwilio i feysydd y theatr a'r ddrama yng Nghymru ac Ewrop.

Rhif 8 Gorffennaf 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 0017-4149

08

9 770017 414619